



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

# Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub o 2016

Tachwedd 2015



# FFRAMWAITH CENEDLAETHOL TÂN AC ACHUB AR GYFER CYMRU 2016

## CYNNWYS

<b>CYFLWYNIAD</b> .....	3
Pwerau .....	3
<b>GWELEDIGAETH A BLAENORIAETHAU ALLWEDDOL</b> .....	4
Cyd-destun newidiol gwasanaethau tân ac achub .....	4
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 .....	6
Statws y Fframwaith hwn .....	6
<b>PENNOD 1: MYND AT I'N BARHAUS AC MEWN MODD CYNALIADWY I LEIHOU RISG A GWELLA DIOGELWCH DINASYDDION A CHYMUNEDAU</b> .....	7
Canfod risgiau a thargeddu ymyriadau .....	7
Diogelwch Tân i Fusnesau .....	8
Prif Awdurdod Diogelwch Tân .....	9
Dylunio a gwerthuso rhaglenni .....	9
Ymgysylltu â phobl a chymunedau .....	10
Cynyddu amrywiaeth rhaglenni .....	10
Cydweithio ac atal .....	10
<b>PENNOD 2: YMATEB YN GYFLYM AC YN EFFEITHIOL I DDIGWYDDIADAU</b> .....	13
Asesu ac ymateb i risg newidiol .....	13
Ymatebion diogel ac effeithiol .....	14
Swyddogaethau nad ydynt yn orfodol .....	15
<b>PENNOD 3: BOD YN ATEBOL MEWN MODD EGLUR AC YN GYHOEDDUS AM GYFLENWI A CHYLLIDO, GAN DDANGOS Y SAFONAU LLYWODRAETHU UCHAF</b> ....	17
Atebolrwydd cyhoeddus .....	17
Cynllunio ar gyfer y Tymor Canolig a Hir .....	17
Cysylltiadau â Chynllunio ar gyfer Gwella .....	18
Aelodau ATAAu .....	19
Rôl Awdurdodau Lleol .....	20
Dyfodol trefniadau llywodraethu ATAAu .....	20
<b>PENNOD 4: CYNNAL PWYSAU TUAG I LAWYR AR GOSTAU AC ACHUB AR BOB CYFLE I GYFLAWNI ARBEDION EFFEITHLONRWYDD</b> .....	21
Meincnodi .....	21
Cyllido a phennu cyllidebau .....	22
Cyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd .....	23

<b>PENNOD 5: CYDWEITHIO’N EFFEITHIOL GYDA PHARTNERIAID I WELLA EFFEITHLONRWYDD A LLESIANT DINASYDDION A CHYMUNEDAU .....</b>	<b>26</b>
Cydweithio i gyflawni effeithlonrwydd .....	27
Cydweithio gyda’i gilydd a chyda Gwasanaethau Tân ac Achub y tu allan i Gymru	27
Cydweithio i gefnogi’r gwasanaeth cyhoeddus ehangach.....	28
Rhannu Gwybodaeth.....	28
Trefniadau adolygu .....	29
<b>PENNOD 6: GWERTHFAWROGI A DATBLYGU’R GWEITHLU I’R SAFONAU UCHAF ...</b>	<b>31</b>
Ffitrwydd Diffoddwyr Tân.....	31
Iechyd a llesiant .....	31
Hyfforddiant.....	32
Adolygu .....	32
<b>PENNOD 7: GWEITHREDU, MONITRO AC ADRODD .....</b>	<b>34</b>
Ymyrryd .....	34
Rolau a chyfrifoldebau.....	35
Perthnasoedd .....	36

## CYFLWYNIAD

### Pwerau

O dan adran 21 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (“Deddf 2004”) mae’n rhaid i Weinidogion Cymru baratoi Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub.

O ran y Fframwaith, mae’r adran yn darparu:

- (a) bod rhaid iddo osod blaenoriaethau ac amcanion i Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau) mewn cysylltiad â chyflawni eu swyddogaethau;
- (b) y gall gynnwys canllawiau i ATAau mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un o’u swyddogaethau;
- (c) y gall gynnwys unrhyw fater arall sy’n ymwneud ag ATAau neu eu swyddogaethau y mae Gweinidogion Cymru’n ei ystyried yn briodol.

Wrth baratoi’r Fframwaith, mae’n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag ATAau, pobl sy’n cynrychioli cyflogeion ATAau ac unrhyw bobl eraill y maent hwy’n ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy. Cyflawnwyd y gofyniad hwn trwy gynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn cyn cyhoeddi’r ddogfen hon.

Yn y Fframwaith hwn mae’r term ‘ATAau’ yn cyfeirio at y tri chorff statudol sy’n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru, h.y. Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.

## **GWELEDIGAETH A BLAENORIAETHAU ALLWEDDOL**

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub yn nodi gweledigaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer ATAAu yng Nghymru. Mae'n disgrifio'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan yr ATAAu ac yn creu'r sylfaen ar gyfer datblygu a hybu gwelliant, effeithlonrwydd ac arloesedd.

Mae gan ATAAu rôl allweddol bwysig a hynod werthfawr o ran gwneud a chadw pobl yn ddiogel. Mae eu gallu a'u harbenigedd wedi cyfrannu at ostyngiad sylweddol a pharhaus yn nifer y tanau yng Nghymru a'u difrifoldeb o ran marwolaethau ac anafiadau. Ond mae'r un llwyddiant wedi golygu bod rôl ATAAu yn newid. Gall eu hadnoddau gael eu hailgyfeirio, fel sy'n digwydd yn gynyddol, i ymdrin â digwyddiadau eraill, ac i wella diogelwch tân a mesurau atal tân. Nid yw'n briodol mwyach bod ATAAu yn cael eu hystyried yn ddim ond dull o ymateb i danau a diffodd tanau pan fyddant yn codi, er bod hynny'n dal yn hanfodol, wrth gwrs. Dylai nod gor-redol ATAAu fod yn ehangach na hynny. Dylai fod fel a ganlyn:

**Cadw pobl, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd yng Nghymru'n ddiogel rhag tanau a pheryglon eraill mewn modd mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.**

Mae'r Fframwaith hwn yn ehangu ar y nod gor-redol hwn ac yn nodi sut y dylai ATAAu fynd ar ei drywydd. Bydd gwneud hynny'n golygu proses o newid yn yr hyn y mae ATAAu yn ei wneud a sut y maent yn ei wneud. I ryw raddau mae'r broses eisoes wedi dechrau, dan arweiniad yr ATAAu eu hunain. Er bod Llywodraeth Cymru yn croesawu hynny, rydym ni'n credu bod angen i'r cyfeiriad gael ei strwythuro a'i ddisgrifio'n fwy eglur ar lefel Cymru gyfan. Mae'r Fframwaith yn diwallu'r angen hwnnw.

### **Cyd-destun newidiol gwasanaethau tân ac achub**

Yn aml caiff angen i sefydliadau newid ei ddehongli fel beirniadaeth yn unig o'r modd y maent wedi gweithredu yn y gorffennol. Nid yw hynny'n wir yma. Mae'r cyfraniad y mae ATAAu wedi'i wneud i wella diogelwch yn amlwg. Nid yw'r Fframwaith hwn yn dadlau o blaid newid fel ymateb i danberfformiad, camreolaeth neu aneffeithlonrwydd. Yn hytrach, mae'n gwneud hynny am fod y cyd-destun y mae ATAAu yn gweithredu ynddo a'r heriau y maent yn eu hwynebu yn newid.

Mae tair prif agwedd i hynny:

- **Cydbwysedd effeithiol rhwng ymateb ac atal.** Fel a nodir uchod, bu gostyngiad hirdymor yn nifer y tanau. Mae hyn yn adlewyrchu gwaith ATAAu o ran hybu diogelwch tân. Er ei bod yn amlwg na all ac na ddylai gostyngiad yn nifer y tanau esgor ar gynnydd cyfatebol yn y capasiti sydd ar gael, mae'r duedd hon yn rhyddhau rhywfaint o adnoddau diffodd tân pellach i gael eu hailgyfeirio i wneud gwaith o'r fath. Mae hwn yn gyflawniad arwyddocaol. Mae'n gwella diogelwch pobl a chymunedau ac effeithlonrwydd y Gwasanaeth: mae'n llawer mwy cost-effeithiol atal tân na diffodd un. Fodd bynnag, bydd cyflawni a chynnal y cydbwysedd hwnnw'n golygu newidiadau



mewn cyfrifoldebau, galluoedd, strwythurau, sgiliau a diwylliannau – ac yn y modd y caiff y rhain eu rheoli, eu monitro a'u gwella;

- **Cyni Cyllidol.** Er bod ATAAu mewn sefyllfa unigryw o ran pennu eu cyllidebau eu hunain, mae angen iddynt wneud hynny yng nghyd-destun pwysau difrifol ar gyllid cyhoeddus yn y tymor canolig a hir. Mae hynny yn ei dro'n galw am fynd ati'n barhaus i wneud yr ymdrech mwyaf posibl i adnabod a chyflawni arbedion effeithlonrwydd, i gynnal safonau llywodraethu uchel, ac i roi cyfrif mewn modd tryloyw am y modd y cyflenwir gwasanaethau. Mae hefyd yn atgyfnerthu'r angen i leihau costau trwy atal tanau, yn hytrach nag ymateb iddynt;
- **Poblogaeth sy'n heneiddio.** Mae poblogaeth Cymru'n heneiddio, gyda chynnydd arbennig o amlwg yn nifer y bobl sydd dros 80 oed. Ar yr un pryd, ceir newid parhaus o ofal preswyl i ofal yn y cartref ar gyfer pob grŵp agored i niwed. Bydd y tueddiadau hyn yn tueddu i gynyddu nifer y bobl sydd mewn perygl difrifol o fod mewn tân, ac yn gwasgaru'r risgiau hynny yn fwy eang ar draws y gymuned. Mae hynny'n cynyddu'r angen i ganolbwyntio ar atal ac i gydweithio gydag asiantaethau eraill wrth wneud hynny.

Mae cydberthynas amlwg rhwng yr heriau hyn. Mae cyni cyllidol a heneiddio'n galw am ffocws cryfach ar atal, sy'n gwella diogelwch pobl agored i niwed. Mae ymateb i'r heriau hyn yn galw am arweinyddiaeth a gweithredu clir a chydlynol gan yr ATAAu, gan Lywodraeth Cymru a chan asiantaethau sy'n bartneriaid. Mae'r Fframwaith hwn yn nodi'r hyn y dylai hynny ei gynnwys. Yn arbennig, mae'n nodi'r amcanion allweddol canlynol ar gyfer ATAAu :

- **Mynd ati'n barhaus ac mewn modd cynaliadwy i leihau risg a gwella diogelwch dinasyddion a chymunedau** (pennod 1);
- **Ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i ddigwyddiadau** (pennod 2);
- **Bod yn atebol mewn modd eglur ac yn gyhoeddus am gyflenwi a chyllido, gan ddangos y safonau llywodraethu uchaf** (pennod 3);
- **Cynnal pwysau tuag i lawr ar gostau ac achub ar bob cyfle i gyflawni arbedion effeithlonrwydd** (pennod 4);
- **Cydweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i wella effeithlonrwydd a llesiant dinasyddion a chymunedau** (pennod 5);
- **Gwerthfawrogi a datblygu'r gweithlu i'r safonau uchaf** (pennod 6).

## **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Fe basiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ym mis Mawrth 2015. Mae'n nodi saith nod llesiant, ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus datganoledig bennu amcanion ar gyfer cyrraedd y nodau hynny, a mynd ar drywydd yr amcanion hynny yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy.

Mae'r Fframwaith hwn wedi'i ddylunio mewn modd sy'n sicrhau y bydd ei ddilyn o gymorth i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er enghraifft, bydd lleihau risg tân a nifer y tanau'n cyfrannu'n uniongyrchol at nodau *Cymru Iachach* a *Cymru o Gymunedau Cydlynus*; bydd camau gweithredu i leihau risg tân a nifer y tanau mewn perthynas â'r amgylchedd naturiol ac asedau treftadaeth yn cyfrannu yn yr un modd at nodau *Cymru gydnerth* a *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*.

Yn yr un modd, mae'r dulliau y mae'r canllawiau hyn yn eu nodi wedi'u bwriadu i fod yn gwbl gyson ag egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae taro cydbwysedd effeithiol rhwng gwasanaethau ymatebol a gwasanaethau ataliol yn ganolog i hynny: mae'n cefnogi'r agweddau ar yr egwyddor honno sy'n ymwneud â 'meddwl am y tymor hir' ac 'atal' yn llwyr. Mae elfennau eraill o'r Fframwaith hwn hefyd yn cefnogi'r agweddau sy'n ymwneud ag 'integreiddio', 'cydlafurio' a 'chynnwys personau eraill'.

### **Statws y Fframwaith hwn**

Caiff y Fframwaith hwn ei baratoi gan Weinidogion Cymru o dan adran 21 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, a chaiff ei roi mewn grym gan Orchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2015. Felly, o dan adran 21(7) o Ddeddf 2004, mae'n rhaid i ATAAu roi ystyriaeth iddo wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hynny'n berthnasol i'r Fframwaith cyfan ond, er mwyn ei gwneud yn haws cyfeirio atynt, rydym wedi crynhoi blaenoriaethau allweddol y Fframwaith drwy'r ddogfen hon mewn 'blwch' mewn ffont trwm ar gefndir coch golau, fel ar dudalen 5 uchod. Bydd y rhain hefyd yn cael eu defnyddio fel sail i waith gan Lywodraeth Cymru i fonitro ac adrodd ar gynnydd mewn perthynas â'r Fframwaith, fel sy'n ofynnol gan adran 25 o Ddeddf 2004, ac fel a ddisgrifir ymhellach yn y bennod olaf.

Mae'r Fframwaith yn cyfeirio at nifer o weithgareddau gan ATA lle nad oes dyletswydd statudol penodol ar ATAAu i'w cyflawni – er enghraifft, darparu rhaglenni sy'n ymwneud ag addysg gyrrwyr ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn yr achosion hyn, caiff y gweithgareddau y cyfeirir atynt yn y Fframwaith eu cwmpasu gan bwerau ATAAu yn Neddf 2004, er enghraifft yn adrannau 5A, 11 a 12. Fodd bynnag, cyn ymgymryd â gweithgareddau nad ydynt yn amlwg yn rhan o ddyletswyddau statudol penodol ATAAu, dylai ATAAu ddal i geisio'u cyngor cyfreithiol eu hunain. Mae hynny'n nodweddiadol bwysig ar lywodraethu da.

Mae'r ddogfen hon yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at y nodau cyffredinol hyn ac yn cynorthwyo ATAAu i wneud hynny, trwy ymrwymiadau a datganiadau o fwriad eglur. Fodd bynnag, diben statudol y Fframwaith yw rhoi arweiniad i ATAAu; felly mae ymrwymiadau o'r fath, yn ddieithriad, yn anstatudol.

## **PENNOD 1: MYND ATI'N BARHAUS AC MEWN MODD CYNALIADWY I LEIHOU RISG A GWELLA DIOGELWCH DINASYDDION A CHYMUNEDAU**

- 1.1. Mae hybu diogelwch tân yn un o swyddogaethau statudol ATAau. Mae adran 6 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i ATA wneud darpariaeth at ddiben hybu diogelwch tân yn ei ardal (gan gynnwys rhoi cyngor, gwybodaeth, cyhoeddusrwydd ac anogaeth i atal tanau a marwolaeth neu anaf o ganlyniad i danau a lleihau colledion).
- 1.2. Mae'r gostyngiad hirdymor yn nifer y tanau'n adlewyrchu gwaith ATAau o ran atal tanau, gwella diogelwch tân a mynd i'r afael â throseddau sy'n gysylltiedig â tân. Mae tueddiadau cymdeithasol megis cyfraddau ysmegu is, yn enwedig o dan do; defnyddio deunyddiau adeiladu a dodrefnu anfflamadwy; a gosod taenellwyr dŵr mewn adeiladau domestig newydd wedi gwneud cyfraniad hefyd.
- 1.3. Mae'r gostyngiad hwn yn nifer y tanau wedi galluogi ATAau i ailbennu'r cydbwysedd rhwng eu gwaith ymateb a'u gwaith atal. Er bod y gostyngiad hwn yn llwyddiant mawr, mae angen iddo gael ei gynnal a'i sefydlu yn awr, mewn cyddestun lle mae adnoddau'n brin a lle gallai nifer y bobl sy'n wynebu risg tân difrifol gynyddu'n sylweddol. Mae gwneud hynny yn un o'r heriau allweddol sy'n wynebu ATAau.
- 1.4. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth ariannol i rai gwasanaethau o'r fath trwy ei grant Diogelwch Tân Cymunedol. Mae'r cwestiwn a fydd hynny'n parhau ac i ba raddau y bydd yn parhau y tu hwnt i gwmpas y Fframwaith hwn. Ond beth bynnag a ddigwydd, mae'n amlwg nad yw atal yn ddewis ychwanegol y dylid ei gyflawni os yw cymorth allanol yn caniatáu. Mae'n ganolog i waith y Gwasanaeth ac mae'n rhaid iddo barhau i fod felly; ac o ganlyniad dylai ATAau ei gefnogi.

### **Canfod risgiau a thargeddu ymyriadau**

- 1.5. Mae risgiau tân yn amrywio'n sylweddol ar draws yr ardaloedd a'r cymunedau y mae ATAau yn eu gwasanaethu. Er enghraifft, gall y bobl sy'n wynebu'r risg mwyaf o dân damweiniol gynnwys y rhai sy'n fusgrell, sydd ag anabledd, sy'n ysmegu, sy'n byw ar eu pen eu hunain, neu sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Mae hyn yn golygu y gall y rhai sy'n wynebu'r risg mwyaf fod yn amddifadus hefyd; ac y gallant fod mewn sefyllfa arbennig o wael i ymdrin â chanlyniadau tân. Gall lleihau'r risgiau hynny wneud cyfraniad sylweddol i drechu tlodi yn ein cymunedau mwy amddifadus.
- 1.6. Bydd rhai o'r risgiau hyn yn cynyddu'n gyson wrth i'n poblogaeth fynd yn hŷn. Ar ben hynny, gallai'r pwyslais cryfach ar gynorthwyo pobl hŷn, a phobl eraill sy'n agored i niwed, i aros yn eu cartrefi eu hunain gynyddu'r risg hwn ymhellach byth.
- 1.7. Dengys tystiolaeth fod y rhan fwyaf o farwolaethau ac anafiadau oherwydd tân yn rhai y gellir eu hatal. Mae ymchwil yn dynodi bod y risg o farw neu gael anaf mewn eiddo heb larwm mwg yn sylweddol uwch nag mewn eiddo â larwm mwg. Felly mae gosod larymau mwg mewn eiddo preifat ac eiddo ar rent yn allweddol bwysig. Mae bod â larymau mwg sy'n gweithio ym mhob cartref ar rent yng Nghymru'n cynnig



potensial amlwg i atal marwolaeth ac anafiadau i denantiaid, a difrod i'w heiddo ac i eiddo landlordiaid.

- 1.8. Mae Safon Ansawdd Tai Cymru, sy'n berthnasol i dai cymdeithasol presennol, yn ei gwneud yn ofynnol cynnal gwiriadau diogelwch trydanol rheolaidd a gosod synwryddion mwg. Mae'r Gofynion Ansawdd Datblygu, sy'n gymwys i dai cymdeithasol newydd, yn nodi bod angen cydymffurfio â'r holl reoliadau adeiladu a diogelwch statudol.
- 1.9. Mae'r Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) yn gosod rhwymedigaeth ar yr holl landlordiaid i sicrhau bod annedd ar rent yn addas i bobl fyw ynnddi ac yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi gofynion penodol mewn rheoliadau i gyflawni'r rhwymedigaeth hon. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhagnodi gofynion mewn perthynas â gosod synwryddion mwg a charbon monocsid yn ogystal â chwblhau profion diogelwch trydanol cyfnodol.
- 1.10. Felly mae angen i ATAAu flaenoriaethu eu gweithgarwch o ran diogelwch yn y cartref gan roi blaenoriaeth i'r rhannau mwyaf agored i niwed o'r boblogaeth, lle byddant yn dwyn y budd mwyaf. Er mwyn gwneud hynny, mae'n rhaid iddynt adnabod y rhai sydd fwyaf mewn perygl mewn modd cyson ac effeithiol. Bydd hynny yn ei dro'n dibynnu ar rannu data a gwybodaeth yn effeithiol gydag asiantaethau eraill yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer grwpiau o'r fath. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y darperir gwasanaethau mwy effeithlon, gwerthfawr ac effeithiol i gadw ein dinasyddion yn ddiogel.
- 1.11. Mae angen dull gweithredu tebyg mewn perthynas â chynnau tanau'n fwriadol a throseddau sy'n gysylltiedig â tân. Mae gwaith yr ATAAu gyda phobl ifanc i ostwng nifer y tanau a gaiff eu cynnau'n fwriadol a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol eisoes wedi hen ennill ei blwyf. Mae targedu'r rhai sydd wedi troseddu, neu y gwyddys eu bod mewn perygl o droseddu, wedi cyflawni rhai llwyddiannau arwyddocaol. Eto, mae'r gwaith hwn yn dibynnu'n helaeth ar gydweithio gydag asiantaethau eraill, megis yr heddlu, timau cyfiawnder ieuenctid ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol. Bydd Llywodraeth Cymru yn integreiddio'i chymorth ar gyfer y gwaith hwn mewn ffyrdd sy'n meithrin dull cydweithredol.
- 1.12. Mae ATAAu wedi datblygu rhaglenni i wella diogelwch ar y ffyrdd a lleihau'r risg o wrthdrawiadau traffig ffyrdd hefyd. Er nad oes dyletswydd ar ATAAu i wneud hynny, mae Llywodraeth Cymru yn croesawu mentrau o'r fath ar yr un sail â rhaglenni diogelwch tân: gall y naill a'r llall gadw pobl yn ddiogel a lleihau'r angen i ddarparu gwasanaethau ymatebol. Dylai ATAAu barhau i ddarparu rhaglenni o'r fath lle profwyd eu bod yn effeithiol.

### **Diogelwch Tân i Fusnesau**

- 1.13. Mae gan ATAAu rolau sydd wedi'u diffinio'n eglur mewn perthynas â gorfodi diogelwch tân fel a nodir yng Ngorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Dylai ATAAu barhau i ganolbwyntio'u hymdrechion ar adeiladau annomestig risg uwch, gan roi cyngor a chymorth diogelwch tân i fusnesau a, lle y bo angen,

defnyddio'u pwerau rheoleiddiol i barhau i leihau risg tân.

- 1.14. Gall tanau mewn eiddo annomestig gael effaith ddinistriol ar gymunedau lleol a bydd ymdrech parhaus i ostwng nifer y tanau mewn safleoedd busnes yn amlwg yn cael effaith gadarnhaol, gan ddiogelu cyflogaeth leol, a chryfhau masnach leol.

### **Prif Awdurdod Diogelwch Tân**

- 1.15. Ers 2014 mae ATAAu wedi gallu ymrwymo i bartneriaethau Prif Awdurdod gyda busnesau, elusennau neu sefydliadau eraill sy'n gweithredu ar draws ardal gorfodi tân mwy nag un Awdurdod Lleol – gan ddod y pwynt cyswllt sengl ar gyfer cyngor ynghylch rheoliadau diogelwch tân.
- 1.16. Nod y Cynllun Partneriaethau Prif Awdurdod yw galluogi ATAAu i ddatblygu partneriaethau effeithiol gyda busnesau sy'n creu cysondeb o ran rhoi cyngor ynghylch gorfodi diogelwch tân ac yn ymorol am ddull mwy effeithlon ac effeithiol o orfodi diogelwch tân.
- 1.17. Ers i gwmpas Prif Awdurdod gael ei ymestyn i gynnwys cyngor ynghylch rheoliadau diogelwch tân, mae ei fanteision mewn rhannau eraill o'r DU wedi bod yn sylweddol. Dylai ATAAu yng Nghymru fynd ati mewn ffordd weithredol i archwilio partneriaethau Prif Awdurdod lle mae'n ddichonadwy gwneud hynny, gan sicrhau bod trefniadau effeithlon yn bodoli ar gyfer darparu cyngor ynghylch rheoliadau diogelwch tân a chyflawni gwaith gorfodi mewn perthynas â diogelwch tân.

### **Dylunio a gwerthuso rhaglenni**

- 1.18. Mae ystod eang o raglenni atal tân a diogelwch tân yn bodoli'n barod, y mae rhai ohonynt wedi bod yn weithredol am flynyddoedd lawer. Er bod rhai o'r rhain yn amlwg yn llwyddiannus, dylai ATAAu wastad chwilio am ffyrdd o sicrhau bod eu rhaglenni'n gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i leihau risg. Dylent osgoi parhau â rhaglenni ac ymyriadau na ellir dangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol.
- 1.19. Dylai rhaglenni atal gael eu teilwra i fynd i'r afael â'r risgiau mwyaf, ac i amgylchiadau'r unigolion a'r cymunedau dan sylw. Gallai ymyriad pwrpasol a dwys yng nghartref rhywun â risg uchel iawn o dân gael mwy o effaith yn y pen draw na dull mwy eang ac ar lefel is. Yn yr un modd, dylai rhaglenni sydd wedi'u bwriadu i ostwng troseddau sy'n gysylltiedig â tân fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth am yr hyn sy'n cymhell pobl, a phobl ifanc yn enwedig, i gynnau tanau'n fwriadol. Dylai ATAAu adnabod rhaglenni a fydd yn gwella diogelwch tân i'r eithaf, sydd wedi'u bwriadu i newid ymddygiad pobl a'u canfyddiad am dân ac sy'n cynnig y gwerth gorau am arian. Dylai rhaglenni gael eu hadolygu'n rheolaidd a'u targedu'n effeithiol, yn seiliedig ar gudd-wybodaeth a gwerthusiadau ansoddol a meintiol cadarn.
- 1.20. Mae'n aml yn anodd gwneud hynny. Gall fod yn amhosibl mesur yn gywir beth yw effaith ymyriadau sy'n ceisio atal tanau a lleihau risgiau, gan na all rhywun fesur, na deall achosion, digwyddiadau na chafwyd. Yn hytrach, bydd yn aml yn angenrheidiol i werthusiadau fod yn seiliedig ar asesiadau ansoddol cadarn o lefelau'r risg, ac o faint y newid yn ymddygiad pobl er mwyn eu gwneud eu hunain

yn ddiogelach, a/neu wneud iddynt deimlo'n ddiogelach.

### **Ymgysylltu â phobl a chymunedau**

- 1.21. Mae'r pwynt diwethaf hwn yn allweddol bwysig. Mae lleihau risg tân yn aml yn golygu dylanwadu ar bobl i ymddwyn mewn ffyrdd diogelach, yn hytrach na dim ond sefydlu mesurau diogelwch tân technegol. Mae gwneud hynny'n golygu ymgysylltu'n effeithiol ag unigolion, teuluoedd a chymunedau i gyfleu peryglon tân a sut i'w lliniaru; a datblygu ymwybyddiaeth a chymorth mewn cymunedau i fynd i'r afael â risgiau tân yn uniongyrchol. Mae hefyd yn golygu bod yn rhaid i'r rheiny sy'n darparu rhaglenni atal fod â'r sgiliau dylanwadu "ysgafnach" angenrheidiol i achosi newid mewn ymddygiad.

### **Cynyddu amrywiaeth rhaglenni**

- 1.22. Ar hyn o bryd, mae rhaglenni diogelwch ac atal ATAau yn canolbwyntio ar ostwng nifer y tanau a gwrthdrawiadau traffig ffyrdd. Nid yw'r Fframwaith hwn yn mynd ati'n ffurfiol i geisio ymestyn y cylch gwaith hwnnw. Fodd bynnag, mae achos credadwy dros ddatblygu gwaith diogelwch tân domestig ATAau i gynnwys peryglon eraill y gall pobl eu hwynebu yn eu cartrefi eu hunain. Er enghraifft, mae 10% o'r holl alwadau 999 i Wasanaeth Ambiwlans Cymru yn ymwneud â phobl hŷn sydd wedi cwmpo<sup>1</sup>. Gallai llawer o'r rhain gael eu hatal trwy roi cyngor syml a darparu addasiadau sylfaenol. Yn 2014, roedd 26 o farwolaethau<sup>2</sup> a ddigwyddodd yn uniongyrchol o ganlyniad i wenwyno â charbon monocsid yng Nghymru a Lloegr. Er ei bod yn amlwg bod gan sefydliadau eraill megis awdurdodau lleol a chymdeithasau tai gyfrifoldebau yn y maes hwnnw, mae ATAau mewn sefyllfa dda i roi cyngor o ran bod yn ymwybodol ac maent eisoes wedi gwneud hynny yn y gorffennol. Yn yr un modd, gallai ATAau roi cyngor hefyd ynghylch mesurau lliniaru llifogydd ar gyfer y rhai sy'n byw mewn cartrefi sydd mewn perygl. Er y byddai hyn yn mynd y tu hwnt i ddyletswyddau statudol ATAau fel y maent ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r achos dros newid mewn egwyddor, a bydd yn amcanu at ddatblygu cynllun i dreialu'r dull ehangach hwn, trwy gytundeb gydag ATAau.

### **Cydweithio ac atal**

- 1.23. Dylai'r holl raglenni diogelwch tân perthnasol gael eu cyflawni ar y cyd â chyrrff cyhoeddus eraill a sefydliadau yn y trydydd sector sydd hefyd â rôl i'w chyflawni o ran cadw pobl yn ddiogel. Gallai hyn gynnwys Gwasanaethau'r Heddlu, y Gwasanaeth Ambiwlans, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol a sefydliadau'r Trydydd Sector. Dylai cydweithio gynnwys gweithio ar y cyd a rhannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth am risgiau a sut i'w lliniaru.
- 1.24. Awdurdodau Lleol sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol am ddarparu addysg diogelwch ar y ffyrdd a dylai ATAau fynd ati'n weithredol i geisio cydweithio gydag Awdurdodau Lleol, yr Heddlu a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i gyfrannu at gyflawni'r agenda

<sup>1</sup> <http://www.ambulance.wales.nhs.uk/Default.aspx?pageId=205&lan=cy>

<sup>2</sup> (<http://www.ons.gov.uk/ons/about-ons/business-transparency/freedom-of-information/what-can-i-request/published-ad-hoc-data/health/september-2015/index.html>). Reference number: 004612

amlasiantaeth o ran diogelwch ar y ffyrdd. Ni fydd gweithio ar wahân yn y maes hwn yn cael yr un effaith â dull amlasiantaeth lle mae pob asiantaeth mewn llawer o achosion yn gallu cynnig profiadau go iawn a negeseuon grymus gyda golwg ar addysgu a hysbysu unigolion â risg uchel a newid eu ffordd o feddwl.

1.25. Nid ellir amau llwyddiant ATAAu o ran gostwng cyfraddau troseddu ymhlith cyfranogwyr yn eu rhaglenni. Fodd bynnag, er mwyn cynyddu'r effaith ar droseddau sy'n gysylltiedig â tân gymaint ag a ellir mae'n rhaid wrth gyfranogiad ehangach ar lefel gymunedol a'r tu hwnt i hynny. Mae atal ac ymateb i danau gwair yn galw am ddull partneriaeth. Bydd cryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn ogystal ag ymgysylltiad â chymunedau'n arwain at gymunedau diogelach a chryfach. Mae ymweliadau addysgol ag ysgolion gan yr ATAAu, fel rhan o'r cwricwlwm mewn ysgolion, yn sicrhau bod y negeseuon cywir yn dylanwadu ar ein pobl ifanc yn gynnar. Dylid archwilio cyfleoedd pellach i hybu'r negeseuon hyn trwy'r gyfundrefn addysg. Dylai ATAAu weithio gyda phartneriaid a sefydlu cynlluniau cyfathrebu strategol ar y cyd i ostwng nifer y tanau bwriadol a'u difrifoldeb, gan gynnwys darparu negeseuon eglur a chyson ar gyfer y cyhoedd.

**Felly dylai ATAAu:**

- **Fynd ati mewn ffordd gynaliadwy i sefydlu rhaglenni diogelwch ac atal fel rhan annatod o'u gweithgareddau craidd, a chefnogi rhaglenni o'r fath yn briodol;**
- **Adnabod y rhai sydd fwyaf mewn perygl o dân a throseddu sy'n gysylltiedig â tân, ar y cyd â phartneriaid eraill;**
- **Gweithio gyda phartneriaid eraill i helpu i adnabod y rhai sydd fwyaf mewn perygl o brofi gwrthdrawiad traffig ffyrdd;**
- **Dylunio a darparu rhaglenni sy'n mynd i'r afael â'r risgiau hyn yn gyson ac yn effeithiol, gan gynnwys yn enwedig newid ymddygiad a chanfyddiad pobl mewn perthynas â thanau, a meithrin ymgysylltiad cymunedau i'r perwyl hwnnw;**
- **Hybu diogelwch tân ar gyfer busnesau mewn ffyrdd sy'n lleihau i'r eithaf y risg i gyflogeion ac i broffidioldeb. Mae hyn yn cynnwys ymrwymo i bartneriaethau Prif Awdurdod lle y bo'n briodol.**
- **Sicrhau bod y gweithlu'n gallu datblygu a chynnal y sgiliau ymgysylltu a dylanwadu y mae eu hangen i hybu diogelwch tân a newid ymddygiad yn effeithiol, yn enwedig mewn perthynas â phobl agored i niwed;**
- **Gwerthuso'u rhaglenni'n gadarn, gan ddefnyddio tystiolaeth feintiol ac ansoddol berthnasol, gan gynnwys tystiolaeth am ganfyddiadau ac ymddygiadau, a gweithredu ar y canlyniadau.**

**I gefnogi hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn:**

- **Adnabod a mynd ar drywydd cyfleoedd i ddeddfu ar gyfer diogelwch tân, er enghraifft trwy ei gwneud yn ofynnol gosod larymau mwg mewn tai rhent preifat ac mewn tai cymdeithasol;**
- **Hybu cydweithio rhwng ATAAu ac asiantaethau eraill er mwyn gwella diogelwch;**
- **Yn arbennig, hybu'r arfer o rannu data rhwng cyrff cyhoeddus ynghylch pobl a chymunedau sydd mewn perygl, ac amcanu at ddatrys unrhyw anawsterau a rhwystrau i hyn;**
- **Cychwyn rhaglen dreialu i annog ATAAu i fynd i'r afael â pheryglon domestig eraill, gyda golwg ar ostwng nifer y derbyniadau brys i ysbytai;**
- **Cyllido'r dull hwn a dulliau arloesol eraill o fynd i'r afael â diogelwch tân, yn amodol ar gyfyngiadau cyllidebol;**
- **Cefnogi partneriaethau prif awdurdod arfaethedig, mewn trafodaeth gyda'r Swyddfa Rheoliadau Gwell.**

## **PENNOD 2: YMATEB YN GYFLYM AC YN EFFEITHIOL I DDIGWYDDIADAU**

**Mae'n anorfod bod darparu ymateb brys cyflym ac effeithiol i danau a digwyddiadau eraill yn dal i fod yn ganolog i ddiben y Gwasanaeth Tân. Felly y bydd hi hefyd ni waeth pa mor lwyddiannus yw gwaith diogelwch tân ac atal tân.**

- 2.1. Mae Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i ATAAu wneud darpariaeth ar gyfer ymateb i danau, gwrthdrawiadau traffig ffyrdd ac argyfyngau eraill yn unol â gorchmynion a roddwyd gan Weinidogion Cymru. Mae Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007 yn ei gwneud yn ofynnol i ATAAu ddarparu gwasanaethau ar gyfer gwaredu halogion cemegol, biolegol neu ymbelydrol oddi ar bobl os ceir argyfwng ac achub pobl o adeiladau sydd wedi dymchwel, trenau, tramiau neu awyrennau. Mae Deddf Argyfyngau Sifil 2004 hefyd yn gosod gofynion ar ATAAu fel ymatebwyr Categori 1.
- 2.2. Mae ATAAu hefyd yn ymateb i argyfyngau eraill, megis llifogydd, ar sail anstatudol; mewn rhai ardaloedd maent hefyd yn darparu ymateb meddygol brys.

### **Asesu ac ymateb i risg newidiol**

- 2.3. Bu gostyngiad cyson mewn presenoldeb brys i ddiffodd tanau dros y 10-15 mlynedd ddiwethaf. Mae Pennod 1 yn amlygu'r angen i ganolbwyntio ar raglenni ac ymyriadau atal ym maes diogelwch cymunedol, i gynnal y duedd hon. Wrth i'r lle ar gyfer gwelliant pellach fynd yn llai ac wrth i'r risg gynyddu o ganlyniad, er enghraifft, i boblogaeth sy'n heneiddio, bydd yn rhaid wrth ymdrech parhaus i daro cydbwysedd effeithiol rhwng ymateb ac atal er mwyn cynnal y gostyngiad hwn. Ymateb i ddigwyddiadau, ochr yn ochr ag atal, fydd conglfaen rôl yr ATAAu o hyd o ran cadw dinasyddion a chymunedau'n ddiogel. Ni fydd atal byth yn dileu'r angen am ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau ond bydd sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng y ddau'n allweddol i sicrhau diogelwch a lles dinasyddion.
- 2.4. Dylai ATAAu sicrhau bod eu hasesiadau risg cymunedol yn adlewyrchu'r ffocws ar atal, gan gynnal y gallu i ddarparu ymateb effeithiol i ystod o argyfyngau. Mae angen i ATAAu egluro'r risg newidiol i gymunedau, gan egluro rôl newidiol eu gwasanaeth tân ac achub o ganlyniad, a'r ymateb y gall unigolion ei ddisgwyl o ganlyniad, o ran argyfyngau tân, ymateb brys ehangach a chymorth atal. Bydd angen i ATAAu adrodd wrth y cyhoedd i'w hysbysu pa mor dda y maent wedi cyflawni mewn perthynas â'r cynlluniau hyn ar gyfer ymateb yn . Gellir gwneud hyn trwy fecanweithiau adrodd ar brosesau cynllunio ar gyfer gwella.
- 2.5. Mae'n rhaid mai diogelwch y cyhoedd a diffoddwyr tân yw'r flaenoriaeth allweddol. O fewn hyn, fodd bynnag, dylai ATAAu archwilio ble y mae presenoldeb gostyngol i ddiffodd tanau wedi creu capasiti; a dylid ystyried yr holl gyfleoedd ar gyfer cynyddu cyfleoedd adleoli i'r eithaf ac ehangu rolau diffoddwyr tân gweithredol. Gallai a dylai hyn gynnwys y mathau ehangach o waith diogelwch a ddisgrifir yn y bennod flaenorol.
- 2.6. Mae'n amlwg bod adnoddau diffoddwyr tân yn allweddol i unrhyw ymateb effeithiol, a dylai ATAAu sicrhau bod systemau criwio ar gyfer ymladdwyr tân yn adlewyrchu



proffiliau risg lleol. Er mai cyfrifoldeb ATAau yw rheoli'r manylion yn hyn o beth, ac iawn yw hynny, mae'n amlwg bod angen taro cydbwysedd rhwng effeithlonrwydd y Gwasanaeth ar y naill law a'r gallu i ddarparu ymateb brys effeithiol a chyflym, a darpariaeth estynedig o ran diogelwch cymunedol, ar y llaw arall. Gall yr arfer o rannu adnoddau gweithredol ar draws ffiniau daearyddol gyfrannu at hyn hefyd.

- 2.7. Yn amlwg, ni all y gostyngiad yn nifer y tanau olygu y bydd canran gyfartal o amser ac adnoddau'n gallu cael eu harallgyfeirio at weithgareddau ymateb neu atal eraill. Mae'n rhaid i ATAau gynnal y gallu i ymateb i unrhyw dân unrhyw bryd; ac mae gofynion hyfforddi ychwanegol, cyfyngiadau'r system ar ddyletswydd yn ôl galw, a gweithgareddau presennol eraill a gyflawnir oll yn cyfyngu ar y capasiti sydd ar gael. Er hynny, bydd o leiaf peth capasiti ar gael ar gyfer gweithgareddau heblaw diffodd tân.

#### **Dylai ATAau:**

- **Barhau i ddarparu ymateb cyflym ac effeithiol i'r holl ddigwyddiadau perthnasol ym mhob rhan o'u hardaloedd, ar bob adeg;**
- **Sicrhau bod cymunedau'n ymwybodol o'r ymateb y gallant ddisgwyl ei gael a pherfformiad ATAau o ran cyflawni hyn;**
- **Sicrhau bod systemau criwio ar gyfer diffoddwyr tân yn adlewyrchu proffiliau risg lleol, a'u bod yn defnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithlon;**
- **Rhannu adnoddau, ac yn enwedig sgiliau ac asedau arbenigol, ar draws ffiniau.**

#### **Ymatebion diogel ac effeithiol**

- 2.8. Mae'r angen i sicrhau bod systemau gorchymyn, gweithdrefnau, canllawiau a hyfforddiant gweithredol yn briodol ac yn effeithiol yn allweddol i gynnal systemau gwaith diogel.
- 2.9. Dylai'r holl drefniadau ar gyfer ymatebion brys gael eu rheoli yn unol â'r gweithdrefnau gweithredu safonol a awdurdodir gan bob ATA. Wrth ddatblygu gweithdrefnau gweithredu safonol lleol, dylai ATAau wastad sicrhau bod y canllawiau gweithredol cenedlaethol newydd yn cael eu hystyried a'u gweithredu mewn ffyrdd sy'n gweddu i drefniadau a blaenoriaethau lleol.
- 2.10. Mae cynnal diogelwch diffoddwyr tân a'r cyhoedd yn galw am ddysgu o ddigwyddiadau difrifol i leihau i'r eithaf y risg y ceir digwyddiadau tebyg eto. Dylai ATAau sicrhau bod ganddynt systemau i sicrhau bod gwersi o ddigwyddiadau yng Nghymru a'r tu allan i Gymru'n cael eu hadnabod, eu hystyried yng nghyd-destun eu harferion a'u gweithdrefnau eu hunain, a bod newidiadau angenrheidiol yn cael

eu rhoi ar waith lle ystyrir bod hynny'n briodol.

- 2.11. Bydd digwyddiadau sy'n galw am ddull ymchwilio systematig. Gall digwyddiadau o natur ddifrifol sy'n cynnwys marwolaeth neu anaf difrifol fod yn destun ymchwiliad gan Grwneriaid, yr Heddlu neu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Fodd bynnag, mae ymchwiliadau o'r fath yn aml wedi'u cyfyngu, yn gymwys, i ffeithiau disyfyd pob achos ac unrhyw euogrwydd sefydliadol neu unigol yn unig. Mae'r Prif Gynghorydd Tân ac Achub, ar y cyd â'r ATAau a chyrff ymchwiliol eraill, wedi datblygu protocol i ymchwilio i ddigwyddiadau difrifol mewn modd sy'n annibynnol, yn wrthrychol ac yn canolbwyntio ar ddysgu, ac i ledaenu'r gwersi a ddysgwyd mewn modd eglur.
- 2.12. Mae datblygiadau mewn technoleg yn golygu bod datrysiadau newydd ac arloesol yn cael eu datblygu sy'n gwella gweithrediadau diffodd tân ac achub yn aruthrol. Dylai ATAau fynd ati'n barhaus i archwilio a, lle y bo'n bosibl, i gyflwyno technoleg newydd lle mae gwneud hynny'n gwella diogelwch diffoddwyr tân a/neu'n cynnig gwerth uwch na dulliau confensiynol.
- 2.13. Er enghraifft, bydd y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN) yn cynnwys gwasanaethau llais a data sy'n bwysig i'r gorchwyl ar rwydwaith 4G a bydd yn disodli'r gwasanaethau cyfathrebu gweithredol a gyflenwir ar hyn o bryd gan Airwave Solutions Ltd a darparwyr masnachol eraill. Bydd ESN yn fwy cost-ffeithiol, i fynd i'r afael â phwysau cyllidebol, yn wasanaeth effeithlon o safbwynt gweithredol gyda gwasanaethau data band eang integredig ac yn seiliedig ar y galw fel bod defnyddwyr yn talu am y nodweddion y mae eu hangen arnynt yn unig. Bydd yr ATAau, gan gydweithio â Chyd-grŵp y Gwasanaethau Brys, yn asesu goblygiadau strategol, gweithredol a thechnegol ESN ac yn gwerthuso ffyrdd y gall y broses o bontio i'r system newydd fod yn gydweithredol ac yn effeithlon. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gadarnhau faint o gymorth pontio all fod ar gael i gefnogi ATAau.

#### **Felly dylai ATAau:**

- **ystyried y canllawiau gweithredol cenedlaethol newydd a'u rhoi ar waith;**
- **sicrhau bod gwersi o ddigwyddiadau yng Nghymru a'r tu allan i Gymru'n cael eu hadnabod a lle y bo'n bosibl gweithredu newidiadau i arferion a gweithdrefnau yn lleol a/neu ledled Cymru;**
- **archwilio a chyflwyno technoleg newydd i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.**

#### **Swyddogaethau nad ydynt yn orfodol**

- 2.14. Mae'r bennod hon yn ymdrin â gweithgareddau ymateb presennol ATAau, y mae rhai ohonynt yn weithgareddau dewisol nad yw'n ofynnol iddynt eu cyflawni yn ôl y gyfraith. Mae'r rhain yn cynnwys achub o'r dŵr ac ymateb i lifogydd, y mae'r holl ATAau yn ymateb iddynt er nad oes unrhyw ddyletswydd gyfreithiol i wneud hynny.

Fodd bynnag, gall effeithiau hirdymor y newid yn yr hinsawdd gynyddu'r achosion o lifogydd difrifol. Mae hyn yn creu achos da dros ffurfioli'r sail i ddarparu gweithgareddau ymateb i lifogydd, a chydgyssylltu gwaith yr holl asiantaethau perthnasol. Felly bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ymestyn swyddogaethau statudol ATAau i gynnwys achub o lifogydd ac o'r ddŵr yn benodol. Byddai unrhyw benderfyniad o'r fath yn dilyn ymgynghoriad llawn ag ATAau, undebau diffoddwyr tân a phartïon eraill â buddiant.

2.15. Mewn rhai rhannau o Gymru, mae staff ATAau yn darparu rhai mathau o ymatebion meddygol brys a/neu'n cynorthwyo Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i wneud hynny. Mae hyn wedi dangos y potensial i ddarparu gwasanaeth gwell ar gyfer cleifion a lleddfu'r beichiau ar Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Dylai ATAau barhau i weithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a chyrff eraill y GIG i ddatblygu a gweithredu rhaglenni o'r fath, a bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi hyn ar y lefel strategol. Fel a nodir ym Mhennod 1, mae achos hefyd dros gynyddu amrywiaeth gwaith diogelwch ATAau i gynnwys y meysydd hyn trwy helpu i atal damweiniau domestig eraill heblaw tanau. Ni chynigir, fodd bynnag, y dylai darpariaethau o'r fath ddod yn ddyletswyddau statudol ar gyfer ATAau.

**I gefnogi hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn:-**

- **Cynnal deialog gyda chynrychiolwyr diffoddwyr tân ynghylch arallgyfeirio rôl ymladdwyr tân;**
- **Cefnogi trefniadau cenedlaethol i ddatblygu canllawiau gweithredol;**
- **Rhoi cymorth i ddatblygu a chyflawni'r Protocol Digwyddiadau Difrifol;**
- **Rhoi cymorth i ddatblygu un system cyfathrebu symudol ar gyfer y gwasanaethau brys;**
- **Ystyried ymestyn swyddogaethau statudol ATAau i gynnwys materion megis llifogydd ac achub o ddŵr.**

### **PENNOD 3: BOD YN ATEBOL MEWN MODD EGLUR AC YN GYHOEDDUS AM GYFLENWI A CHYLLIDO, GAN DDANGOS Y SAFONAU LLYWODRAETHU UCHAF**

**Ym mis Ionawr 2014, cyhoeddodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (“Comisiwn Williams”) ei adroddiad terfynol. Er ei fod yn canmol lefel y perfformiad yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, roedd hefyd yn nodi'r angen taer ar draws y sector cyhoeddus am fecanweithiau atebolrwydd eglur a chadarn i sbarduno gwelliant.**

- 3.1. Mae'r angen hwn yr un mor berthnasol i ATAau, ond efallai nad yw mor syml i'w weithredu. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus, nid yw ATAau yn cael eu hethol yn uniongyrchol nac yn atebol yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru na Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hynny'n golygu bod angen i ATAau sefydlu a chynnal mecanweithiau atebolrwydd eu hunain.

#### **Atebolrwydd cyhoeddus**

- 3.2. Er mwyn bod mor atebol â phosibl i'r cyhoedd bydd angen i ATAau sicrhau bod cymunedau'n deall y risgiau yn eu hardal, yr hyn y mae'r ATAau yn gyfrifol am ei gyflawni'n unigol a thrwy drefniadau partneriaeth, a sut y maent yn bwriadu gwneud hyn. Dylai ATAau roi'r cyfle i ddinasyddion gyfrannu i'r cynlluniau hyn mewn ffordd wybodus. Mae hyn yn golygu bod angen i ddinasyddion ddeall yr amcanion y mae eu ATA yn mynd ar eu trywydd, y llwyddiant y mae wedi'i gael o ran cyflawni'r amcanion hyn, a'r cyfleoedd ar gyfer cynnydd pellach (a'r cyfyngiadau ar hynny). Gellir gwneud hyn trwy'r mecanweithiau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

#### **Felly dylai ATAau gyfleu'r canlynol yn eglur i ddinasyddion a chymunedau lleol:**

- **Cwmpas eu gwaith** (e.e. diffodd tân, diogelwch tân, atal troseddau sy'n gysylltiedig â tân, gwrthdrawiadau traffig ffyrdd ac ymateb i ddigwyddiadau eraill) **a maint a chost pob elfen mewn cymhariaeth â'i gilydd;**
- **Eu hamcanion, y cynnydd y maent wedi'i wneud o ran eu cyflawni, ac unrhyw gyfyngiadau ar gynnydd pellach.**

#### **Cynllunio ar gyfer y Tymor Canolig a Hir**

- 3.3. Mae'r Fframwaith yn nodi gweledigaeth ar gyfer newid i ATAau ymateb i heriau ariannol a chymdeithasol newydd a datblygol. Bydd angen i agendâu diwygio ATAau gael eu datblygu a'u cyflawni bob yn dipyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gan ATAau weledigaeth hirdymor eglur a fydd yn cael ei gwireddu gan y camau cynyddrannol hyn. Mae cael mewnbwn dinasyddion i'r weledigaeth hirdymor hon a'r modd y caiff ei gwireddu trwy gynlluniau gwella blynyddol yn hollbwysig. Bydd angen i ATAau sicrhau bod cynigion ac opsiynau teg a chytbwys yn cael eu cyflwyno fel rhan o'u gwaith ymgynghori ac ymgysylltu â chymunedau, ar ffurf y gall aelodau o'r cyhoedd ei deall.

**Felly dylai ATAAu wneud gwaith effeithiol i gynllunio ar gyfer y tymor canolig a hir sy'n ystyried:-**

- **y negeseuon allweddol a nodir yn y Fframwaith hwn;**
- **proffiliau risg newidiol cymunedau;**
- **heriau ariannol parhaus;**
- **eu cyfraniad i'r Nodau Llesiant;**
- **cyflawni cynlluniau Llesiant Lleol ehangach;**
- **rôl ATAAu o ran darparu gwasanaethau ehangach ar gyfer cymunedau;**
- **barn dinasyddion a chymunedau yn seiliedig ar ymgynghori ac ymgysylltu teg a chytbwys.**

### **Cysylltiadau â Chynllunio ar gyfer Gwella**

- 3.4. Mae'n ofynnol i ATAAu ar hyn o bryd, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, bennu amcanion gwella blynyddol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, ac adrodd ar eu perfformiad yn flynyddol.
- 3.5. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau Cynllunio ar gyfer Gwella diwygiedig ym mis Hydref 2015. Mae'r Canllawiau hyn yn egluro'r berthynas rhwng y Fframwaith Cenedlaethol, prosesau cynllunio strategol ATAAu a'u rhwymedigaethau gwella, a'r dyletswyddau adrodd a osodir ar ATAAu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Fframwaith hwn yn sefydlu blaenoriaethau ar gyfer ATAAu y mae'n rhaid iddynt roi ystyriaeth iddynt wrth ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer y tymor canolig a hir, fel sy'n ofynnol gan adran 4(3)(c) o Fesur 2009. Dylai trefniadau ar gyfer cynlluniau gwella blynyddol fod yn seiliedig ar ddatblygu amcanion gwella sy'n ategu gweledigaeth strategol mwy hirdymor ATAAu a'r nodau llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 3.6. Bydd hunanasesu gonest a gwrthrychol, a pharodrwydd ATAAu i rannu gwybodaeth am berfformiad yn agored, yn ychwanegu uniondeb at gynigion ATAAu ar gyfer y dyfodol, ac ymdeimlad cryfach o ddealltwriaeth a pherchnogaeth gan y cyhoedd. Dylai'r dull hwn gael ei ategu gan gyfeiriad eglur at ganfyddiadau o asesiadau gan gymheiriaid sy'n codi materion strategol priodol, ac unrhyw adroddiadau a gynhyrchwyd gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub. Bydd hyn yn ychwanegu hygredd trwy ddarparu lefel o ddidueddrwydd ac annibyniaeth.

- 3.7. Bydd y Prif Gyngorydd Tân ac Achub yn adolygu data a gwybodaeth sydd ar gael ynghylch ATAau ac yn cynnal adolygiadau penodol sy'n ofynnol yn ei dyb ef/ei thyb hi ac yn nhyb Gweinidogion Cymru.

**Felly dylai ATAau:**

- **sicrhau bod cysylltiadau eglur a thryloyw rhwng y Fframwaith hwn a chynlluniau mwy hirdymor ac amcanion gwella ATAau;**
- **sicrhau bod trefniadau'n bodoli i gynnal asesiadau gan gymheiriaid (o swyddogaethau corfforaethol a gweithredol);**
- **darparu adroddiadau agored a gonest ar eu perfformiad. Mae hyn yn cynnwys adrodd ar ganfyddiadau priodol mewn asesiadau gan gymheiriaid ac adroddiadau'r Prif Gyngorydd Tân ac Achub.**

**Aelodau ATAau**

- 3.8. Mae aelodau o ATA yn gyfrifol ac yn atebol yn y pen draw ac ar y cyd am yr holl benderfyniadau y mae'n eu gwneud, ac am ei berfformiad. Yn ymarferol, wrth gwrs, mae llawer o benderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud gan swyddogion, sy'n darparu ac yn ceisio gwella gwasanaethau. Er hynny, mae gan aelodau o ATAau rolau allweddol bwysig o ran arweinyddiaeth a her. Maent hefyd yn naturiol yn dod â dealltwriaeth am anghenion a phryderon pobl a chymunedau lleol.
- 3.9. Yn wahanol i lywodraeth leol, nid yw'r swyddogaethau gweithredol a chraffu mewn ATA wedi'u gwahanu'n ffurfiol: caiff yr holl benderfyniadau eu gwneud yn ffurfiol yn enw'r Awdurdod fel endid corfforaethol. Fodd bynnag, mae'r rolau o ran pennu cyfeiriad strategol, ac adolygu a herio lefelau perfformiad, yr un mor bwysig â'i gilydd. Maent hefyd yn wahanredol ac yn galw am sgiliau a dulliau gwahanol. Mae ATAau wedi ceisio ymorol am hyn trwy greu pwyllgorau craffu neu eu tebyg ar wahân, er na all fod gwahaniaeth ffurfiol fel sydd mewn llywodraeth leol. Mae angen i aelodau fod wedi'u harfogi i gyflawni'r ddwy rôl yn gyson ac yn effeithiol.

**Felly dylai ATAau:-**

- **Sefydlu a chynnal strwythurau mewnol sy'n gwahanu'n eglur rhwng rolau arwain a chraffu aelodau;**
- **Cefnogi aelodau'n effeithiol yn y rolau hynny, gan gynnwys trwy hyfforddiant neu gyfleoedd datblygu eraill.**



## Rôl Awdurdodau Lleol

3.10. Caiff ATAAu eu cyllido trwy ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol dalu cyfraniadau tuag at eu treuliau net llawn (a nodir ym mhob Gorchymyn Cynllun Cyfuno Gwasanaethau Tân ac Achub). Mae cysylltiad agos rhwng eu swyddogaethau a sawl gwasanaeth a ddarperir gan Awdurdodau Lleol, megis tai, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Mae'n bwysig felly bod awdurdodau cyfansoddol ATA yn deall amcanion a pherfformiad yr ATA yn llawn; ac yn cael y cyfle i graffu arnynt.

### Felly dylai ATAAu:

- **Anfon eu Cynlluniau Gwella ymlaen at bwylgorau craffu eu Hawdurdodau Lleol cyfansoddol er mwyn iddynt eu hystyried;**
- **Rhoi tystiolaeth ffurfiol o'r cynlluniau hynny os yw pwyllgorau o'r fath yn gofyn iddynt wneud hynny;**
- **Cyfrannu at ymholiadau eraill gan bwylgorau craffu pan ofynnir iddynt.**

## Dyfodol trefniadau llywodraethu ATAAu

3.11. Fe wnaeth y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus argymhellion hefyd a fyddai'n newid yn sylfaenol strwythur a threfniadau llywodraethu ATAAu. Mae'r rheiny y tu allan i gwmpas y Fframwaith hwn, sy'n ymdrin ag ATAAu dim ond fel y'u cyfansoddwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Bydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn y maes hwn yn amodol ar ymgynghoriad llawn ac ar wahân gan Lywodraeth Cymru.

3.12. Yn yr un modd, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig datgymhwyso Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 mewn perthynas ag Awdurdodau Lleol fel rhan o'i rhaglen ehangach i ddiwygio llywodraeth leol. Os bydd y cynnig hwn yn cael ei roi ar waith, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ac yn ymgynghori ar wahân ynghylch mecanwaith cynllunio a rheoli perfformiad corfforaethol priodol ar gyfer ATAAu.

### Bydd Llywodraeth Cymru yn:-

- **Gwahodd y Prif Gyngorydd Tân ac Achub i adolygu'r data a'r wybodaeth sydd ar gael ynghylch ATAAu, a chynnal adolygiadau penodol sy'n ofynnol yn nhyb Gweinidogion Cymru;**
- **Ymgynghori'n llawn ynghylch unrhyw newidiadau posibl i'r trefniadau llywodraethu, a mecanweithiau cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad ar gyfer ATAAu, gan gynnwys dyfodol Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 fel y mae'n gymwys i ATAAu.**

## **PENNOD 4: CYNNAL PWYSAU TUAG I LAWR AR GOSTAU AC ACHUB AR BOB CYFLE I GYFLAWNI ARBEDION EFFEITHLONRWYDD**

**Bydd y pwysau difrifol ar gyllid cyhoeddus yn parhau i effeithio ar holl sefydliadau'r sector cyhoeddus am o leiaf y deng mlynedd nesaf. Dylai ATAAu reoli eu cyllidebau a'u gwariant yn unol â hynny. Dylent fynd ar drywydd yr holl gyfleoedd dichonadwy i leihau costau gan hefyd gyflawni eu dyletswyddau craidd yn effeithiol.**

- 4.1. Mae pwysau difrifol tra hysbys a hirdymor ar gyllid cyhoeddus yng Nghymru a gweddill y DU. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi amcangyfrif na fydd gwariant cyhoeddus yng Nghymru'n dychwelyd at lefelau 2011 cyn tua 2024-2025. Mae hyn, wrth gwrs, wedi creu angen taer i ganfod arbedion effeithlonrwydd, a chwotgi ar y gwasanaethau a ddarperir, ar draws y sector cyhoeddus.
- 4.2. Yn naturiol mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Tân gynnal darpariaeth gynhwysfawr i ymateb i argyfyngau drwy'r amser. Mae hynny'n creu anghenion penodol o ran cyllido, ond yn amlwg ni all wneud y Gwasanaeth yn ddiogel rhag y pwysau ariannol hyn.
- 4.3. Mae'r arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd hyd yma'n ganmoladwy, ond mae angen cynnal y cynnydd. Gall fod yn her gwneud hynny mewn ffyrdd sy'n parhau i gynnal diogelwch y cyhoedd, ond mae cyfleoedd yn bodoli serch hynny.

### **Meincnodi**

- 4.4. Ar y cyfan, mae cost y pen y Gwasanaeth Tân yng Nghymru'n uwch nag yn Lloegr. Gall fod rhesymau da dros beth o'r gwahaniaeth hwn: er enghraifft gall cost cynnal darpariaeth gynhwysfawr mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd arfordirol tenau eu poblogaeth yng Nghymru fod yn uwch yn ôl cyfran nag yn y cytreffi mawr yn Lloegr. Fodd bynnag, mae cymariaethau cywir yn amlwg yn werthfawr o ran dangos y cyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd, ac adnabod ATAAu tebyg sydd o bosibl wedi datblygu arfer da y mae'n werth ei archwilio ymhellach.

#### **Felly dylai ATAAu:**

- **Adnabod ATAAu yn Lloegr sy'n gwasanaethu ardaloedd tebyg ac yn wynebu risgiau tebyg.** Mae cymariaethau gyda'r Alban a Gogledd Iwerddon, y mae ganddynt ill dwy un gwasanaeth ar gyfer yr awdurdodaeth gyfan, yn annhebygol o fod yn ddefnyddiol. Nid yw cymariaethau â gwasanaethau tân mewn gwledydd tramor yn debygol o fod yn ddefnyddiol ychwaith, gan y gall fod ganddynt rolau, dyletswyddau a modelau cyllido gwahanol iawn;
- **Cymharu eu costau am bob uned (boed yn gostau y pen ar y cyfan, yn gostau am eitemau arbennig megis cyflogau a pheiriannau, neu'n gostau am bob digwyddiad yr ymatebwyd iddo) â rhai'r ATAAu hynny;**
- **Defnyddio'r cymariaethau hyn i adnabod a mynd ar drywydd cyfleoedd posibl ar gyfer arbedion effeithlonrwydd y mae ATAAu tebyg wedi'u mabwysiadu o bosibl, os yw, ac i'r graddau bod, cymariaethau'n datgelu**

costau sylweddol is mewn ardaloedd eraill, a chan ystyried y cyd-destunau lleol yn yr ardal honno ac yn yr ATA dan sylw.

### **Cyllido a phennu cyllidebau**

- 4.5. Mae'r modd y mae ATAAu yn cael eu cyllid yn wahanredol iawn. Nid yw'r cyfraniadau y maent yn ei gwneud yn ofynnol i'w Hawdurdodau Lleol eu gwneud yn amodol yn ffurfiol ar unrhyw gymeradwyaeth. Er bod lefel y taliadau'n agored i ymgynghoriad a thrafodaeth, yn y pen draw mae'n rhaid i'r Awdurdodau Lleol dalu'r cyfraniadau y mae'r ATAAu yn gofyn amdanynt. Mae ATAAu yn unigryw ymhlith cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn yr ystyr nad yw eu prif ffynhonnell cyllid yn amodol ar benderfyniad neu gymeradwyaeth gan haen arall o lywodraeth, ac (er bod eu haelodau'n cael eu henwebu gan Awdurdodau Lleol) am nad ydynt yn uniongyrchol atebol i'r etholaeth am y penderfyniadau y maent yn eu gwneud ynghylch cyllid. Yn wahanol i rannau eraill o'r sector cyhoeddus datganoledig, nid yw ATAAu yn cael cyllid sylweddol yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, ac felly ni effeithir yn uniongyrchol arnynt gan newidiadau yn lefel y cyllid a ddyrennir i Gymru yn ôl Fformwla Barnett.
- 4.6. Mae'r broses hon yn caniatáu i ATAAu sicrhau lefelau cyllid a phennu cyllidebau sy'n sicrhau bod darpariaeth gynhwysfawr yn cael ei chynnal. Fodd bynnag, mae angen i'r hawl hon gael ei harfer yn ddoeth ac yn gyfrifol. Mae'n anorfod bod y broses o bennu cyllidebau'n un sero-swm: mae dyrannu mwy o arian i un gwasanaeth (neu ei ddiogelu rhag toriadau) yn golygu bod yn rhaid i swm cyfatebol gael ei dynnu oddi ar wasanaethau eraill. Mewn cyfnod o gyni cyllidol, mae'n anorfod bod cynnal neu gynyddu cyfraniadau i ATA gan Awdurdodau Lleol yn golygu bod yn rhaid i wasanaethau'r Awdurdodau Lleol hynny eu hunain ysgwyddo gostyngiadau mwy mewn cyllid nag y byddent yn eu hwynebu fel arall.
- 4.7. Gall sefyllfa o'r fath fod yn annheg iawn; gall fod yn wrthgynhyrchiol hefyd. Mae gwasanaethau gan Awdurdodau Lleol megis addysg, gofal cymdeithasol, tai a rheoli gwastraff yn gwneud cyfraniadau pwysig i ostwng nifer y tanau a lleihau risg tân. Er enghraifft, mae tua thri chwarter y tanau ysbwriel yn digwydd mewn croniadau rhydd o ysbwriel yn hytrach nag mewn biniau neu sgiapiau. Felly pan fo Awdurdodau Lleol yn ymdrin yn effeithiol â thipio anghyfreithlon fe all hynny helpu i ostwng nifer y tanau o'r fath. Ar y llaw arall, gall toriadau gormodol yng nghyllidebau'r gwasanaethau hyn gynyddu'r galw am wasanaethau tân.
- 4.8. Nid yw hynny'n golygu y dylai newidiadau yng nghyllid ATA fod union yr un faint â'r Awdurdodau Lleol sy'n rhan ohono. Nid yw'r ysgogiadau ar gyfer costau a'r potensial ar gyfer arbedion yn y Gwasanaeth Tân yr un fath â'r rhai ar gyfer gwasanaethau Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, wrth bennu cyllidebau a lefelau cyfraniadau, dylai ATAAu egluro eu penderfyniadau'n ofalus wrth Awdurdodau Lleol, a dylent fod yn llwyr ymwybodol o effaith eu penderfyniadau ar Awdurdodau Lleol a'u gwasanaethau.

#### **Felly dylai ATAAu:**

- **Geisio, hyd y gellir, osgoi ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau Awdurdodau Lleol ysgwyddo gostyngiadau mwy yn eu cyllid er mwyn cefnogi codiadau yng nghyllid ATAAu;**
- **Ymgynghori â'u Hawdurdodau Lleol cyfansoddol a'u pwyllgorau archwilio ynghylch lefelau arfaethedig eu cyfraniad cyllido cyn iddynt gael eu pennu, ac egluro pam fod cyfiawnhad dros unrhyw newid mewn cyfraniadau;**
- **Yn arbennig, ceisio deall yr effaith y byddai unrhyw newid yn lefelau'r ffioedd yn ei chael ar wasanaethau sy'n helpu i liniaru tân a risg tân;**
- **Mynd ati mewn ffordd amlwg i roi ystyriaeth lawn i'r holl ymatebion a gafwyd gan Awdurdodau Lleol cyn pennu cyfraniadau a chyllidebau terfynol.**

#### **Cyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd**

- 4.9. Nid yw'r Fframwaith hwn, ac ni all fod, yn arweiniad cynhwysfawr i ffynonellau posibl arbedion effeithlonrwydd. Mae gan bob un o'r tri ATA raglenni'n barod, yn unigol ac ar y cyd, i adnabod a gwireddu arbedion o'r fath a dylai'r rheiny barhau. Yn arbennig, dylent fyfyrion ar ofynion, risgiau a modelau gweithredu lleol, ac amcanu at adnabod arbedion posibl yn y cyd-destun hwnnw a fyddai'n cynnal diogelwch y cyhoedd.
- 4.10. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dau adroddiad diweddar ar arbedion posibl y dylai ATAAu roi ystyriaeth iddynt, a gynhyrchwyd gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub a'r Cynghorydd Cynorthwyol.
- 4.11. Mae'r cyntaf, sydd ar gael yn <http://gov.wales/newsroom/people-and-communities/2015/fire-service-efficiency-report/?lang=cy> yn ymdrin ag arbedion effeithlonrwydd corfforaethol. Mae'n argymhell y dylai ATAAu ystyried sicrhau arbedion trwy, er enghraifft:
- Barhau i leihau'r galw trwy gadw ffocws ar weithgareddau atal (gweler pennod 1 o'r Fframwaith hwn).
  - Ystyried gwahanol ddulliau o griwio sy'n cynnal darpariaeth gynhwysfawr am lai o gost (gweler pennod 2 o'r Fframwaith hwn).
  - Mabwysiadu gwahanol ddulliau modelu ariannol megis cyllidebu ar sail angen, yn ogystal â thechnegau gwella prosesau, megis Prosesau Darbodus. Er na fydd dulliau o'r fath yn berthnasol yn gyffredinol o bosibl, dylai ATAAu osgoi cynnal modelau a phatrymau darpariaeth presennol er eu mwyn eu hunain.
  - Adolygu'r potensial ar gyfer arbedion fel a ddatgelwyd gan ymarferion meincnodi ariannol a meincnodi perfformiad effeithiol (gweler uchod).

- Parhau i gydweithio trwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol i wireddu arbedion pellach mewn gwasanaethau cefn swyddfa a gwasanaethau cymorth. Er bod y Pwyllgor Materion Cenedlaethol wedi gwneud cynnydd da yn y maes hwn, mae cymariaethau â rhannau eraill o'r sector cyhoeddus yn awgrymu bod potensial i fynd yn bellach.

4.12. Mae'r ail adroddiad, sydd ar gael yn <http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/fire/?lang=cy>, yn ymdrin â larymau ffug. Mae ymateb i larymau ffug yn achosi costau ariannol a chostau cyfle allweddol, i ATAAu a meddianwyr adeiladau, ac nid yw'n dwyn unrhyw fudd o gwbl. Dengys yr adroddiad fod nifer y larymau ffug yng Nghymru wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae mwy o larymau ffug na thanau gwirioneddol o hyd; ac mae tystiolaeth o ardaloedd eraill yn dangos bod lle i fynd yn llawer pellach. Gorwedd peth o'r cyfrifoldeb am larymau ffug gyda pherchenogion a meddianwyr adeiladau, ac mae llawer o'r rheiny yn y sector cyhoeddus, yn enwedig safleoedd addysgol ac iechyd. Serch hynny, mae rôl amlwg i ATAAu hefyd o ran adolygu eu dull o ymdrin â larymau ffug gyda golwg ar sicrhau gostyngiad sylweddol mewn presenoldeb. Gallai gostyngiad o'r fath ryddhau adnoddau sylweddol i'w defnyddio i gyflawni tasgau mwy cynhyrchiol, gan gynnwys yr ystod ehangach o waith atal a diogelwch y mae Pennod 1 yn ei nodi.

4.13. Mae'r Fframwaith hwn yn cefnogi ac yn mabwysiadu'r argymhellion yn yr adroddiadau hyn.

#### **Felly dylai ATAAu:**

- **Adnabod, mynd ar drywydd a gwireddu arbedion effeithlonrwydd corfforaethol trwy adolygu eu strwythurau, prosesau a threfniadau criwio eu hunain;**
- **Parhau i gydweithio i wireddu arbedion effeithlonrwydd ar y cyd trwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol;**
- **Adnabod prif achosion larymau ffug a chymryd pob cam rhesymol ac ymarferol i ostwng eu niferoedd;**
- **Adleoli adnoddau dynol ac eraill a gaiff eu rhyddhau gan y mesurau hyn i gyflawni tasgau mwy cynhyrchiol.**

#### **I gefnogi hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn:**

- **Parhau i gomisiynu adroddiadau gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub, ac eraill, i ganfod arfer da a chyfleoedd posibl i sicrhau arbedion;**
- **Cefnogi ymarferion meincnodi effeithiol trwy goladu a chyhoeddi data safonedig ynghylch agweddau gweithredol, ariannol a pherfformiad, a helpu i adnabod ATAAu tebyg i'w defnyddio fel cymaryddion;**

- **Codi proffil yr angen i fynd i'r afael â larymau ffug, a phwyso'n uniongyrchol am gamau gweithredu i wneud hynny mewn adeiladau yn y sector cyhoeddus megis ysgolion ac ysbytai.**



## **PENNOD 5: CYDWEITHIO’N EFFEITHIOL GYDA PHARTNERIAID I WELLA EFFEITHLONRWYDD A LLESIANT DINASYDDION A CHYMUNEDAU**

**Mae cydweithio ac ymgysylltu effeithiol â phartneriaid allweddol yn hollbwysig i ddarparu gwasanaethau effeithiol, hygyrch, cydgysylltiedig ar gyfer dinasyddion a chefnogi ymdrechion yr ATAAu i wneud eu gwasanaethau mor effeithlon a chost-effeithiol â phosibl. Bydd gwasanaethau i ddinasyddion yn fwy effeithiol os caiff y rhain eu cynllunio a’u darparu gyda’r wybodaeth orau sydd ar gael, a chan ddefnyddio’r adnoddau mwyaf priodol. Mae hyn yn wir ar gyfer y meysydd hynny lle mae gan y Gwasanaeth Tân gyfrifoldeb arweiniol am ddarparu, a hefyd ar gyfer meysydd lle mae gan ATAAu gyfraniad gwerthfawr i’w wneud i wasanaethau i ddinasyddion nad ydynt yn uniongyrchol gyfrifol amdanynt.**

- 5.1. Mae’n bwysig bod trefniadau cydweithio a phartneriaethau yn elfen annatod o weithgareddau ATAAu ar bob lefel yn y sefydliad. Mae canllawiau statudol i ATAAu ynghylch cynllunio ar gyfer gwella, a gyhoeddwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, yn nodi rôl cydweithio o ran gwella. Caiff y themâu a nodir yn y Canllawiau hynny eu datblygu ymhellach ac fe ymhelaethir arnynt yma.
- 5.2. Mae gan ATAAu eisoes rôl ar lefel strategol fel partneriaid statudol ar fyrddau a phartneriaethau sydd wedi’u cyfansoddi’n ffurfiol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod y partneriaethau statudol hyn yn diwallu’r angen am gynllunio strategol ar sail gydweithredol nac am gynllunio strategol i sicrhau cydweithio, a bydd angen i ATAAu sicrhau bod ganddynt drefniadau i ymgysylltu â’i gilydd a’r holl sefydliadau perthnasol yn y sector cyhoeddus a’r trydydd sector er mwyn cyflawni hyn.
- 5.3. Er y bu gostyngiad sylweddol ar y cyfan mewn digwyddiadau gweithredol yn ystod y degawd blaenorol, mae’n rhaid bod gan ATAAu drefniadau i dderbyn galwadau am gymorth, i roi adnoddau priodol ar waith ac ymdrin â sefyllfaoedd brys gan ddefnyddio’u personél a’u hoffer. Dylai ATAAu ystyried sut orau i ymateb i’r digwyddiadau hyn, gan ddefnyddio’r sgiliau a’r wybodaeth ac mewn rhai achosion gan rannu asedau ag ATAAu a gwasanaethau brys eraill lle mae hynny’n ddichonadwy.
- 5.4. Wrth ymdrin â digwyddiadau brys, mae ar gomandariaid digwyddiadau angen gwybodaeth berthnasol ac amserol y gallant ei defnyddio i wneud penderfyniadau. Dylai ATAAu barhau i weithio gydag ymatebwyr eraill, megis yr Heddlu a’r Gwasanaeth Ambiwlans, i sicrhau bod trefniadau addas yn bodoli i hwyluso’r broses o gyfnewid gwybodaeth a allai gynorthwyo un asiantaeth neu fwy i wneud penderfyniad. Ni ddylid tanamcangyfrif manteision rhannu gwybodaeth weithredol ymhlith ymatebwyr brys, yn enwedig mewn amser real. Gallai methu ag ennyn yr ymddiriedaeth hon ymhlith yr ymatebwyr golau glas arwain at gadw gwybodaeth yn ôl ac fe allai yn y pen draw achosi mwy o risg i ymatebwyr a dinasyddion.
- 5.5. Mae rhwystrau hysbys i gydweithio. Weithiau mae’r rhain yn endemig ac yn adlewyrchu mandadau, rolau neu flaenoriaethau sy’n groes i’w gilydd; yn aml gellir a dylid ymdrin â’r rhain trwy fecanweithiau polisi ar lefel genedlaethol. Gall rhwystrau eraill godi o gamddealltwriaeth neu wahaniaethau barn mwy lleol neu bersonoledig, ac mae’n well ymdrin â hwy ar y lefel honno. Felly mae angen

arweinyddiaeth gref i sicrhau bod ATAAu yn cydweithio'n agos gyda'i gilydd ac asiantaethau eraill i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu lliflinio a bod gweithgarwch yn cael ei ddyblygu gyn lleied â phosibl. Fodd bynnag, ni ddylai cydweithio ddigwydd er mwyn cydweithio a lle caiff mentrau cydweithio eu rhoi ar waith, mae'n rhaid eu bod yn ychwanegu gwerth. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad oes 'un model'; mae'n gweithio fesul ardal unigol gan adlewyrchu anghenion lleol.

Mae meysydd y dylai ATAAu ganolbwyntio arnynt yn cynnwys:-

### **Cydweithio i gyflawni effeithlonrwydd**

- 5.6. Mae pwysau difrifol yn y tymor canolig a hir ar gyllid cyhoeddus yn galw am yr ymdrech mwyaf posibl i ganfod arbedion effeithlonrwydd. Caiff hyn ei ddisgrifio'n fwy manwl ym Mhennod 4. Wrth gwrs, mae trefniadau cydweithio/partneriaeth yn ffactor sy'n gwneud cyfraniad allweddol i gyflawni effeithlonrwydd.
- 5.7. Fe sefydlwyd y Pwyllgor Materion Cenedlaethol gan y tri ATA i fynd ar drywydd trefniadau cydweithredol ar draws y tri ATA yng Nghymru, gyda golwg ar wella perfformiad ac effeithlonrwydd gwasanaethau. Yn seiliedig ar ganfyddiadau Adroddiad Effeithlonrwydd y Prif Gyngorydd Tân ac Achub 2014, dylai ATAAu barhau i fynd ati'n weithredol i geisio cyfleoedd ar gyfer cysoni pellach trwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol (er enghraifft mewn swyddogaethau cefn swyddfa), gan ddefnyddio cudd-wybodaeth o gydweithio llwyddiannus mewn ardaloedd eraill, a chan daro cydbwysedd rhwng arbedion posibl a chostau datblygu.

### **Cydweithio gyda'i gilydd a chyda Gwasanaethau Tân ac Achub y tu allan i Gymru**

- 5.8. Mae gan ATAAu gyfrifoldeb i barhau i adnabod a mynd ar drywydd yr holl gyfleoedd realistig ar gyfer cydweithio gyda'i gilydd pa un a wneir hyn trwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol ai peidio. Bydd angen i ATAAu ystyried ble y bydd cydweithio gyda'i gilydd yn arwain at gyflwyno trefniadau mwy effeithiol.
- 5.9. Er enghraifft, adeiladu ar drefniadau presennol o dan gynlluniau atgyfnerthu lleol a threfniadau cydgymorth. Mae rhai digwyddiadau'n galw am lefelau uchel o sgiliau a hyfforddiant ond maent mor anfynych fel nad yw cynnal trefniadau llawn o fewn un ATA yn ddefnydd effeithlon nac effeithiol o adnoddau. Mewn achosion o'r fath dylai ATAAu yng Nghymru gydweithio, a chydag ATAAu mewn ardaloedd eraill, i ddarparu trefniadau cydgysylltiedig a chydgyfymorth.
- 5.10. Bydd caffael offer cyson, datblygu canllawiau ar y cyd, neu o leiaf ganllawiau cyson a dulliau cyson o gyflenwi gwasanaethau o gymorth i ddatblygu systemau rhyngweithredol, gan felly ymestyn cyfleoedd ar gyfer trefniadau o'r fath. Gall, a dylai ansawdd gwasanaethau ac arferion arloesol mewn gwasanaethau gael eu datblygu trwy fabwysiadu arfer gorau o ardaloedd eraill.
- 5.11. Hefyd bydd angen i ATAAu sicrhau eu bod yn mynd ati'n llawn i sefydlu rhaglenni ar y cyd sydd wedi'u bwriadu i sicrhau bod gwasanaethau golau glas yn gweithio'n

fwy effeithiol ar lefel genedlaethol a lleol, er enghraifft sefydlu Rhaglen Rhyngweithredadwyedd ar y Cyd y Gwasanaethau Brys (JESIP), gan ddatblygu athrawiaeth, hyfforddiant a dysgu sefydliadol ar y cyd.

### **Cydweithio i gefnogi'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach**

- 5.12. Mae'r cyflwyniad i'r ddogfen hon yn nodi'n eglur yr hinsawdd newidiol y mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ddarparu ei wasanaethau ynddi. Er bod angen cynnal capasiti i ymateb i ddigwyddiadau unrhyw bryd, mae'r gostyngiad hirdymor yn nifer y tanau'n golygu bod peth o'r capasiti hwn yn aml yn peidio â chael ei ddefnyddio.
- 5.13. Wrth archwilio sut orau i ddefnyddio'r capasiti segur hwn, dylid ystyried ffactorau mewnol ac allanol. Er enghraifft fel a ddatganwyd yn gynharach, mae tystiolaeth glir y bydd y boblogaeth yn heneiddio'n sylweddol dros y 30 mlynedd nesaf. Mae nifer eang o risgiau'n gysylltiedig â heneiddio, er enghraifft y cynnydd mewn materion iechyd meddwl a dod yn fwy tueddol o gael anafiadau difrifol trwy ddamweiniau megis baglu neu gwmpo yn y cartref, yn ogystal â thanau. Derbynnir yn eang bod hyn yn debygol o gynyddu'r pwysau ar y GIG ac mae potensial felly i'r Gwasanaeth Tân ac Achub gyfrannu mewn rhai meysydd penodol i leddfu'r pwysau cynyddol hyn. Mae Penodau 1 a 2 yn cynnig llawer o bosibiliadau yn y maes hwn. Dylai ATAAu hefyd archwilio, gweithredu a gwerthuso dulliau eraill sy'n cyfrannu at ganlyniadau a rennir ag asiantaethau eraill (er enghraifft, gweithio i wella diogelwch ar y ffyrdd).

### **Rhannu Gwybodaeth**

- 5.14. Mae llawer o'r gweithgareddau y mae ATAAu yn eu cyflawni, boed o ran atal, diogelu neu ymateb, yn dibynnu ar fynediad at wybodaeth gyfoes, amserol a chywir gan asiantaethau eraill. Os yw sefydliadau'n methu â rhannu gwybodaeth mae'r risg hwnnw'n cynyddu. Er enghraifft, yng nghyd-destun atal, mae angen i asiantaeth sy'n ymwybodol o unigolyn agored i niwed, sydd mewn perygl o anaf neu farwolaeth, drosglwyddo'r wybodaeth hon i asiantaethau eraill i atal yr unigolyn rhag cael ei roi mewn mwy o berygl. Serch hynny, mae'n bwysig hefyd bod aelodau o'r cyhoedd yn cael eu gwneud yn dawl eu meddwl bod gwybodaeth amdanynt yn cael ei diogelu'n dda, ac yn cael ei defnyddio'n briodol.
- 5.15. Dylai ATAAu wneud pob ymdrech i sicrhau bod staff yn rhannu gwybodaeth yn briodol o fewn ysbryd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru a dylent gymryd y camau angenrheidiol i fynd i'r afael â rhwystrau i rannu gwybodaeth. Nid yw'n dderbyniol bod uwch arweinwyr yn ymrwmo i egwyddorion y Cytundeb heb sicrhau bod y rhai sy'n gweithredu yn y man ddarparu'n teimlo'u bod yn gallu rhannu gwybodaeth bersonol gydag asiantaethau eraill a'u bod yn cael eu cefnogi yn hynny o beth. Pan fo trefniadau strategol yn bodoli i hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth, a phan fo hynny'n fuddiol i lesiant dinasyddion, dylai'r rhai â gorchwyl am gyfnewid y data hwn yn ffisegol neu am ei ddefnyddio deimlo'u bod yn cael eu cefnogi gan eu sefydliadau. Heb yr hyder hwn, bydd rhwystrau i rannu gwybodaeth ar lefel ymarferwyr yn parhau i atal gallu'r ATAAu i gyfleu negeseuon ynghylch diogelwch i'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r broblem hon.

## Trefniadau adolygu

5.16. Ni ddylid cydweithio er mwyn cydweithio. Dylid archwilio cyfleoedd a lle gellir cyflawni manteision dylid ystyried cydweithio. Mae'n bwysig bod ATAAu yn darparu tystiolaeth a thryloywder mewn perthynas â'u cynlluniau a'u hystyriaethau, gan gynnwys defnyddio arfer nodedig o ardaloedd eraill. Fodd bynnag, gall cydweithio fod yn llafurus, ac os na cheir budd o hynny, gall fod yn faich ar adnoddau gwerthfawr. Dylai ATAAu sicrhau bod trefniadau adolygu effeithiol ac amserol yn bodoli fel eu bod yn gallu gwneud asesiadau eglur o'r manteision a geir, a chymryd camau gweithredu priodol o ganlyniad.

### **Felly dylai ATAAu:**

- **Adolygu eu trefniadau ar gyfer cynllunio'r modd y byddant yn cydweithio ar lefel strategol i sicrhau bod y rhain yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr ystod o swyddogaethau a gweithgareddau a gyflawnir gan ATAAu;**
- **Parhau i adnabod a mynd ar drywydd yr holl gyfleoedd realistig ar gyfer cydweithio ar lefelau strategol, corfforaethol neu weithredol;**
- **Parhau i fynd ati mewn modd gweithredol i geisio cyfleoedd ar gyfer cysoni pellach a mwy sylfaenol trwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol;**
- **Sicrhau bod arfer nodedig o ardaloedd eraill yn cael ei gynnwys yn eu cynlluniau a'u hystyriaethau;**
- **Gweithio gydag asiantaethau eraill i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu lliflunio a bod cyn lleied o weithgarwch â phosibl yn cael ei ddyblygu;**
- **Ceisio cyfleoedd i gydweithio i gefnogi'r sector cyhoeddus ehangach o ran atal ac ymateb brys;**
- **Sicrhau bod trefniadau rhannu data'n bodoli ac yn gweithio'n ymarferol ar bob lefel a chyda'r holl bartneriaid perthnasol;**
- **Sicrhau bod trefniadau adolygu effeithiol yn bodoli i fesur manteision gweithio mewn partneriaeth fel y gellir cymryd camau gweithredu priodol.**

### **I gefnogi hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn:**

- **Hybu cydweithio rhwng ATAAu ac asiantaethau eraill i wireddu arbedion effeithlonrwydd a chyflawni canlyniadau a rennir;**
- **Yn arbennig, hybu'r arfer o rannu data rhwng cyrff cyhoeddus ynghylch pobl a chymunedau sydd mewn perygl, ac amcanu at ddatrys unrhyw anawsterau a rhwystrau i hyn;**

- **Amcanu at osod disgwyliadau tebyg ar gyrff cyhoeddus eraill mewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, ac yn amodol ar y fframweithiau statudol a threfniadau llywodraethu sy'n berthnasol iddynt.**

## **PENNOD 6: GWERTHFAWROGI A DATBLYGU'R GWEITHLU I'R SAFONAU UCHAF**

**Fel a nodir drwy'r Fframwaith hwn, mae gweledigaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer ATAau yng Nghymru'n canolbwyntio ar gydbwysedd effeithiol rhwng ymateb ac atal. Mae'n rhaid i ATAau sicrhau bod eu gweithlu'n gallu arallgyfeirio i barhau i ymateb i'r newid sefydliadol hwn a dylent sicrhau bod cydbwysedd eu gweithlu'n cael ei addasu i ymateb i'r pwyslais newidiol o ran strwythur, sgiliau a diwylliant, gan ddal i sicrhau diogelwch diffoddwyr tân.**

**Er mwyn taro'r cydbwysedd effeithiol hwn, bydd heriau o ran ceisio cynnal arweinyddiaeth sy'n gyson yn effeithiol, yn enwedig mewn cyfnod o gyni, wrth gynllunio ar gyfer olyniaeth a chynnal ysbryd a pherfformiad y gweithlu.**

### **Ffitrwydd Diffoddwyr Tân**

- 6.1. Mae diffoddwyr tân ledled Cymru yn cyflawni gweithgareddau diffodd tân tebyg a dylent, felly, fod â'r un lefel ffitrwydd i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu dyletswyddau heb eu rhoi hwy eu hunain na chydweithwyr a'r cyhoedd mewn perygl. Yn ystod 2014, cadarnhaodd pob ATA eu bod yn mabwysiadu'r safon ffitrwydd sengl ar gyfer Cymru, trwy'r Grŵp Datblygu Pobl a Datblygu Sefydliadol, gyda'r protocol ar gyfer monitro'r safon yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol trwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol.
- 6.2. Dylai'r holl ATAau roi cymorth i ddiffoddwyr tân gynnal ac adfer ffitrwydd gweithredol yn unol â'u cynlluniau gallu i weithio neu bolisi Iechyd a Diogelwch perthnasol. Gall hyn fod yn bryder arbennig i ddiffoddwyr tân hŷn yng ngoleuni'r cynnydd diweddar mewn oedran pensiwn arferol i 60. ATAau sy'n gyfrifol am benderfyniadau ynghylch aelodau unigol o staff, ac yn naturiol mae angen iddynt drin pob achos yn ôl ei rinweddau. Serch hynny, lle nad yw cyflogeion yn gallu cynnal ffitrwydd gweithredol, dylai ATAau fabwysiadu dull cefnogol a chyd-deimladol, a dylent archwilio'r holl opsiynau eraill cyn ystyried y posibilrwydd o ddiswyddo. Bydd Bwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru yn ystyried materion y gweithlu lle mae cyswllt â'r polisi pensiwn.

### **Iechyd a Llesiant**

- 6.3. Wrth i rôl yr ATAau mewn diogelwch cymunedol dyfu, mae'n rhaid i ATAau ddatblygu cymhwysedd mewn sgiliau ehangach, gan gynnwys atal a dylent weithio i sicrhau bod eu staff yn cael cymorth i wneud hynny. Mae ymgysylltu â'r cyhoedd a'r rôl y gall diffoddwyr tân ei chyflawni o ran rhoi cyngor ynghylch iechyd a llesiant a chymorth i bobl agored i niwed yn allweddol. Mae'r rhain yn sgiliau ysgafnach na'r rhai y bu eu hangen yn gonfensiynol i ddarparu ymateb brys. Yn ogystal â ddarparu hyfforddiant ffurfiol, dylai ATAau ystyried i ba raddau y mae eu strwythurau, eu diwylliannau a'u gwerthoedd yn cefnogi ac yn cynnal sgiliau o'r fath ar draws y gweithlu, a dylent gychwyn rhaglenni datblygu sefydliadol fel y bo'n briodol.
- 6.4. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran canlyn arni â'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin



Domestig a Thrais Rhywiol a fydd yn darparu hyfforddiant cyson ar gyfer yr holl weithwyr proffesiynol allweddol yn y sector cyhoeddus ac mewn sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau arbenigol, gan gynnwys ATAAu, ledled Cymru. Bydd y Fframwaith wedi'i drefnu fesul lefel i sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei gynnig yn briodol ac yn gymesur ac y bydd hyfforddiant yn cynorthwyo gweithwyr proffesiynol i ddarparu ymatebion effeithiol ar gyfer dioddefwyr; a bydd yn defnyddio llwybrau gofal amlasiantaeth ac yn gwella safon gyffredinol y gwasanaethau a ddarperir mewn ffyrdd sy'n berthnasol i'w proffesiwn arbennig.

- 6.5. Mae gan bob ATA bolisi ar gyfer y gweithle ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n nodi'r cymorth a gynigir i'r rhai sydd mewn perygl ac sy'n mynd i'r afael ag ymddygiadau staff sy'n cyflawni'r ymddygiadau hyn.
- 6.6. Dylai ATAAu sicrhau bod eu harferion cyflogaeth yn gyffredinol yn cefnogi staff sy'n datgelu eu bod yn cael eu cam-drin trwy weithredu i gadw staff yn ddiogel yn y gwaith a'u cynorthwyo i fod yn ddiogel y tu allan<sup>3</sup> i'r gwaith. Dylai staff gael eu briffio ar hyn a dylai'r neges hon gael ei hailadrodd wrth staff yn rheolaidd.

### **Hyfforddiant**

- 6.7. Dylai ATAAu ystyried ffrydiau gwaith cenedlaethol sydd yn effeithio naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar rôl diffoddwyr tân a'u gofynion dilynol o ran hyfforddi a datblygu. Gallai hyn gynnwys gwaith a wneir trwy gyrrff cynrychiadol sy'n cynnwys:
  - Ymateb Meddygol Brys (gan gynnwys ymateb ar y cyd)
  - Effeithiau amgylcheddol (gan gynnwys llifogydd)
  - Gwaith amlasiantaeth
  - Ymgysylltu â Phobl Ifanc ac Ymgysylltu Cymdeithasol
  - Arolygu a Gorfodi (Diogelwch Tân i Fusnesau).
- 6.8. Felly mae'n rhaid i'r amcan i arallgyfeirio cyfansoddiad a gallu'r gweithlu fod y sbardun allweddol i'r holl ATAAu wrth edrych tua'r dyfodol, er na ddylai hyn ddigwydd ar draul cynnal gallu i ymateb. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod darparu hyfforddiant risg critigol gan ATAAu yn hanfodol i sicrhau bod gan ddiffoddwyr tân y sgiliau a'r profiad sy'n ofynnol i weithio'n ddiogel a darparu'r gwasanaeth gorau ar gyfer cymunedau.

### **Adolygu**

- 6.9. Dylai ATAAu barhau i ddysgu o adolygiadau o danau ac argyfyngau eraill a chyflawni'r adolygiadau hynny, yn lleol ac yn genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau unigol, er enghraifft, o ymchwiliadau a chan yr Awdurdod Gweithredol

---

<sup>3</sup> Er enghraifft: *Responding to colleagues experiencing domestic abuse: Practical guidance for line managers Human Resources and Employee Assistance Programmes*, cyhoeddiad ar y cyd gan yr Adran Iechyd a CAADA. Ceir cyhoeddiad cysylltiedig i staff sy'n dwyn y teitl: *Responding to colleagues experiencing domestic abuse: Practical guidance for employees experiencing domestic abuse*. Mae'r ddau yn yr adran Resources ar y wefan [www.caada.org.uk](http://www.caada.org.uk)

Iechyd a Diogelwch; yn ogystal ag ymchwiliadau a gwersi a ddysgwyd wedi'u cydgrynhoi y gall y Prif Gynghorydd Tân ac Achub eu cynhyrchu o dan y protocol a ddisgrifir ym Mhennod 2. Mae angen i brosesau cynllunio strategol a chynllunio ar gyfer gwella gynnwys cysylltiadau eglur â datblygu sefydliadol, cynlluniau'r gweithlu a chynlluniau hyfforddi a datblygu hefyd.

**Felly dylai ATAAu:**

- **Barhau i roi'r flaenoriaeth uchaf i ddiogelwch, iechyd a llesiant staff a'r rhai y maent yn eu gwasanaethu ac yn eu diogelu;**
- **Parhau i weithredu safon ffitrwydd sengl, a chefnogi diffoddwyr tân, yn enwedig diffoddwyr tân hŷn, sydd o bosibl yn ei chael yn anodd ei chyrraedd;**
- **Sicrhau bod y gweithlu'n parhau i ddatblygu mewn ffyrdd sy'n cefnogi ac yn cynnal rôl newidiol y Gwasanaeth;**
- **Sicrhau bod cynlluniau strategol, gwella a gweithredol yn rhoi ystyriaeth lawn i allu'r gweithlu i'w cyflawni.**

**I gefnogi hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn:**

- **Rheoli cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân, trwy Fwrdd Cynghori'r Cynllun Pensiwn;**
- **Cynnal deialog parhaus gydag ATAAu a chynrychiolwyr diffoddwyr tân ynghylch materion y gweithlu, gan gynnwys arallgyfeirio;**
- **Fel a ddisgrifir ym mhennod 2, hwyluso dysgu o ddigwyddiadau difrifol i sicrhau bod diogelwch diffoddwyr tân yn cael ei gynyddu i'r eithaf;**
- **Annog cyflogwyr, fel y bo'n briodol, i ganiatáu i staff wasanaethu fel diffoddwyr tân wrth gefn.**

## **PENNOD 7: GWEITHREDU, MONITRO AC ADRODD**

- 7.1. Fel a nodir yn y cyflwyniad, mae adran 21(7) o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i ATAAu roi ystyriaeth i'r Fframwaith wrth gyflawni eu swyddogaethau. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y dylai ATAAu ystyried amodau'r Fframwaith a gweithredu yn unol ag ef oni bai fod seiliau cyfiawnadwy, rhesymol y gellir dangos tystiolaeth ohonynt dros beidio â gwneud hynny. Dylai ATAAu geisio'u cyngor cyfreithiol eu hunain pan fo amheuaeth.
- 7.2. Mae'r Fframwaith hwn yn nodi blaenoriaethau hirdymor ar gyfer ATAAu. Dylai ATAAu ddefnyddio'r blaenoriaethau hyn fel y sail i'w cynlluniau gwella yn y tymor byrrach o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Yn arbennig, dylent gymryd y blaenoriaethau hynny i ystyriaeth wrth bennu amcanion gwella, a dylent fonitro ac adrodd ar y modd y cânt eu cyflawni yn unol ag amodau eraill y Mesur hwnnw.
- 7.3. Mae adran 25 o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan nodi i ba raddau y mae ATAAu wedi gweithredu yn unol â'r Fframwaith hwn ac adrodd ar unrhyw gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd er mwyn sicrhau hyn.
- 7.4. I gyflawni'r ddyletswydd hon, mae ar Lywodraeth Cymru angen tystiolaeth gynhwysfawr am allu a chapasiti ATAAu a'r modd y maent yn cyflawni, gan ATAAu eu hunain ac o ffynonellau perthnasol eraill. Bydd tystiolaeth o'r fath yn cynnwys:-
- data ynghylch perfformiad ATAAu, a gymerwyd o ddangosyddion perfformiad statudol a chan y sector, a ffynonellau perthnasol eraill (megis data cymaradwy ar gyfer ATAAu y tu allan i Gymru);
  - unrhyw adolygiadau thematig a gyflawnwyd gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub, ac argymhellion sydd wedi deillio ohonynt;
  - unrhyw welliannau sy'n cael eu rhoi ar waith gan ATAAu o ganlyniad i asesiadau gan gymheiriaid ac adolygiadau thematig blaenorol a chyfredol, a barn y Prif Gynghorydd Tân ac Achub am faint y gwelliannau hyn ac amcanion gwella eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau gweithredol/darparu gwasanaethau'r ATAAu;
  - adroddiadau gan Swyddfa Archwilio Cymru.
- 7.5. Mae Deddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd wrth y Cynulliad o leiaf bob dwy flynedd. Ceidw Llywodraeth Cymru yr hawl i adrodd yn amlach, yn enwedig ar ddata blynyddol ynghylch perfformiad a'i oblygiadau.

### **Ymyrryd**

- 7.6. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i ymyrryd o dan adran 22 o Ddeddf 2004 os ydynt yn ystyried bod ATA yn methu, neu'n debygol o fethu, gweithredu yn unol â'r Fframwaith.
- 7.7. O dan adran 23 o Ddeddf 2004, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chynnal protocol ymyrryd mewn perthynas ag arfer eu pwerau o dan adran 22. Mae'r gofyniad hwn wedi cael ei gyflawni trwy gyhoeddi protocol Cymorth ac Ymyrryd o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru)

2009. Mae'r protocol hwn yn pwysleisio mai'r dewis olaf un yw ymyrryd. Mae'n nodi bod gan Lywodraeth Cymru ac ATAAu ymrwymiad i adnabod a mynd i'r afael â phroblemau posibl mewn da bryd, er mwyn lleihau unrhyw angen i ymyrryd.

### **Rolau a chyfrifoldebau**

7.8. Mae ATAAu yn gyrrff annibynnol. O fewn amodau'r gyfraith a'r Fframwaith hwn, mater iddynt hwy yw sut y caiff gwasanaethau eu dylunio, eu rheoli a'u darparu i ddiwallu anghenion cymunedau.

7.9. Fodd bynnag, mae rôl amlwg i Lywodraeth Cymru o ran pennu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi y mae ATAAu yn cyflawni eu swyddogaethau ynddo. Er mwyn cyflawni polisi o'r fath mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn deall yn llawn beth yw anghenion dinasyddion a'r ysgogiad ac, i'r gwrthwyneb, y rhwystrau i ddatblygu, cyflawni a newid yn lleol. Yn yr un modd mae angen i ATAAu allu deall y sail i wneud penderfyniadau strategol, a chyfrannu gwybodaeth leol a phroffesiynol i ategu datblygiadau o'r fath. Mae cyfathrebu a deialog yn allweddol i gyflawni hyn, ac felly hefyd linellau cyfrifoldeb clir a phendant.

7.10. Mae ATAAu yn gyfrifol am:

- gyflawni eu swyddogaethau craidd, fel a nodir mewn deddfwriaeth, mewn modd effeithlon ac effeithiol, ac yn seiliedig ar ddadansoddiad cadarn o risg;
- rhoi ystyriaeth i'r Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus o ran cyflawni eu swyddogaethau;
- rhoi ystyriaeth i ddiogelwch, llesiant a datblygiad eu staff;
- darparu gwybodaeth, adroddiadau a datganiadau ar gyfer Llywodraeth Cymru ar eu swyddogaethau yn ôl y gofyn.

7.11. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am:

- gynnal deialog gydag ATAAu a sefydliadau sy'n cynrychioli staff.
- rheoli a datblygu deddfwriaeth a pholisi ar sail tystiolaeth gadarn.
- paratoi Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub a'i adolygu'n gyson;
- adrodd gan ddynodi i ba raddau y mae ATAAu yn gweithredu yn unol â'r Fframwaith ac unrhyw gamau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau hyn.

7.12. Mae gan y **Cynghorydd Tân ac Achub** statws arolygydd o dan Adran 28 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. O dan y ddarpariaeth hon gall y Cynghorydd Tân ac Achub gael gwybodaeth am y canlynol:-

- y modd y mae awdurdodau tân ac achub yn cyflawni eu swyddogaethau;
- materion technegol sy'n ymwneud â'r swyddogaethau hynny.

7.13. Yn ymarferol bydd y Cynghorydd Tân ac Achub yn:-

- rhoi cyngor a chymorth i ATAAu ynghylch agweddau technegol ar gynllunio a chyflenwi gwasanaethau, gan gynnwys cyngor ynghylch arfer nodedig mewn ardaloedd eraill;
- adolygu'r data a'r wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys Cynlluniau Gwella ATAAu, Adroddiadau gan Arolygydd Cyffredinol Cymru, a data meincodi;
- ystyried a yw tystiolaeth yn dynodi'r angen am adolygiad pellach/mwy manwl;
- cynnal adolygiadau o'r fath a darparu gwybodaeth a chanfyddiadau ar gyfer Gweinidogion Cymru, Awdurdodau Tân ac Achub ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## **Perthnasoedd**

- 7.14. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal deialog parhaus gyda'r ATAAu a phartïon eraill â buddiant. Y prif ddull ffurfiol ar gyfer hyn fydd y Fforwm Ymgynghorol Tân ac Achub a'r Grŵp Llywio Cynlluniau Gwella, y bydd y ddau ohonynt yn amcanu at gwrdd 3 gwaith y flwyddyn. Bydd cyfarfodydd eraill, gan gynnwys gyda Gweinidogion, yn cael eu trefnu trwy gydgytundeb
- 7.15. Beth bynnag, gall ATAAu godi unrhyw fater gyda swyddogion Llywodraeth Cymru unrhyw bryd. Mae hyn yn cynnwys, yn arbennig, achosion lle byddai cydgysylltu â meysydd polisi eraill gan Lywodraeth Cymru yn cynorthwyo ATAAu i gyflawni eu swyddogaethau ac i gyflawni'r canlyniadau a nodir yn y Fframwaith hwn.